



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Diweddariad Economaidd

Hydref 2020

Yr Effaith Economaidd o'r Coronafeirws yng Ngheredigion

Beth ydym yn gwybod am yr effaith yn Hydref 2020

Gweithwyr Ffyrlo

Ar draws Ceredigion mae 7,900 o weithwyr ffyrlo sydd yn cyfri am 31% o weithwyr y sir. Mae'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws yn darparu 80% o gyflog gweithwyr i'r rhai sydd yn weithwyr ffyrlo, ond mae'r cynllyn yma yn gorffen ar y 31ain o Hydref 2020.

7,900

29%pts

o gynyddiad mewn hyder cyffredinol busnesau yng Nghymru ers Gorffennaf

12.8%

o gynyddiad mewn cyflwyniadau digartrefedd rhwng Mehefin ac Awst 2020

£28m

mewn Grantiau Cymorth Busnes a dalwyd allan ac a gefnogodd 2,346 o fusnesau

12%

o Gartrefi ar draws Ceredigion heb mynediad at y we

Beth sydd angen monitro yn y tair mis nesaf:

1,990

Hawlio budd-daliadau

Cyrhaeddodd y nifer sydd yn hawlio budd-daliadau 2,030 yn Orffennaf, ac mae wedi gostwng i 1,990 erbyn Medi 2020, sydd yn cynrychioli cynnydd o 140% i gymharu â mis Mawrth. Mae'r hawlio budd-daliadau yn fesurydd o ddiweithdra wrth ddefnyddio Lwfans Chwilio am Waith a hawlwyd Credyd Cynhwysol gyda'r rheswm o fod yn ddi-waith.

159%

o gynyddiad yn yr hawlwyd budd-daliadau i bobl 18-24 mlwydd oed ers Mawrth 2020

8.8%

o gynyddiad mewn prisiau tai yng Ngheredigion i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

47%

o breswylwyr yng Nghymru yn poeni 'ychydig' neu 'llawer' am eu hiechyd meddwl

31%

o oedolion yng Nghymru yn pryderu am eu gallu i fedru talu biliau 1 mis o nawr




Cynnwys

- 01** Cyflwyniad
- 02** Naw Thema i Gefnogi Addasiad Economaidd
- 03** Y Darlun Economaidd Cyffredinol
- 04** Diweithdra
- 05** Sectorau Allweddol
- 06** Cymorth Busnesau Bach
- 07** Cymorth Ariannol i Fusnesau
- 08** Y Farchnad Tai a Fforddiadwyedd
- 09** Swyddi Gwag a Recriwtio
- 10** Amlygiad y Gweithlu i Covid-19
- 11** Gweithwyr Ymfudol
- 12** Effaith ar Gyflog
- 13** Incwm Cartref
- 14** Cyfaint Gwerthiant
- 15** Presenoldeb ar-lein a Gwaharddiad Digidol
- 16** Prifysgolion a Myfyrwyr
- 17** Lleiahu Anghydraddoldebau Economaidd
- 18** Iechyd Corfforol Gartref a Gwaith
- 19** Iechyd Meddwl a Llesiant
- 20** Gweithio o Gartref
- 21** Y "Normal Newydd"
- 22** Hyder Busnesau
- 23** Hyder y Cyhoedd
- 24** Crynodeb Brwydro Caledi
- 25** Cyfeirnodau

Nodwch

Dylai'r ddogfen cael i'w ddarllen mewn cysylltair efo'r Adroddiad Gwaelodlin Economaidd (Chwefror 2020) a'r Drafft Strategaeth Economaidd (Mawrth 2020)

Yr Effaith Economaidd o Covid-19 yng Ngheredigion



Diweddaru'r Gwaelodin Economaidd

Cyflwyniad

Yn y misoedd cyn i pandemig Covid-19 gyrraedd Cymru, a chyn i'r wlad ddechrau ar gyfnod clo ym Mawrth 2020, bu Cyngor Sir Ceredigion wrthi'n datblygu ei Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer y pymtheg mlynedd nesaf hyd at 2035.

Mae'r strategaeth yn nodi cyfleoedd i dyfu'r economi a thaclo nifer o heriau allweddol sylfaenol. Roedd yr ymyriadau arfaethedig yng nghynllun gweithredu'r strategaeth yn creu'r fframwaith i ddatblygu'r economi dros y tymor hirach.

Fodd bynnag, ers hynny, mae'r pandemig wedi creu her sylweddol a bu'n rhaid newid ffocws gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn, i sicrhau bod y mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn cael eu cefnogi, ac i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth busnes i'n heconomi.

Bu'r Cyngor wrthi'n monitro effeithiau'r pandemig ac mae ein hymchwil yn dangos bod nifer o'r heriau presennol a wynebir gan ein heconomi leol wedi dwysau ac dod yn fwy blaenllaw nag yr oeddent gynt

hyd yn oed. Er enghraifft, materion megis diweithdra yng nghefn gwlad, incwm is, tai fforddiadwy a chysylltedd digidol, i enwi ond ychydig.

Yng ngoleuni'r pandemig a'i effaith ar ein heconomi a'n cymdeithas, mae'r Cyngor wedi adolygu'r strategaeth ddrafft, ac wedi dod i'r casgliad bod nifer o'r ymyriadau'n parhau i fod yn uniongyrchol berthnasol ar gyfer lliniaru effeithiau'r pandemig, a datblygu a chryfhau'r economi yn y tymor hirach.

Er mwyn rhoi hyn ar waith rydym yn anelu at ymgynghori ar y strategaeth yn hydref 2020 er mwyn gosod y seiliau ar gyfer adfer a datblygu'r economi yn y dyfodol.

Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu'r effeithiau ar draws nifer o agweddau gwahanol o'r economi leol, er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer ystyried y strategaeth a'r ymyriadau arfaethedig yn y cynllun gweithredu.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r Adroddiad Economaidd Sylfaenol a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020 ac sydd ar gael ar we-dudalen

Ymyngghoriad Strategaeth Economaidd y Cyngor.

Ymyngghoriad Strategaeth Economaidd

Bwriedir cynnal yr Ymyngghoriad ar y Strategaeth Economaidd dros gyfnod o wyth wythnos rhwng Hydref a Rhagfyr er mwyn cael barn busnesau, trigolion a rhanddeiliaid am y strategaeth a'r ymyriadau arfaethedig. Bydd yr ymyngghoriad ar ffurf arolwg ar-lein yn bennaf, a disgwylir yr adroddiad terfynol ar yr adborth yn Ionawr 2021.

Nodyn am y Data

Rydym yn cydnabod bod hwn yn amgylchfyd sy'n newid yn gyflym, ac mae ymchwil pellach yn dod ar gael yn gyson. O ganlyniad, mae'r data a gyflwynir yma'n cynrychioli'r sefyllfa fel y mae ym Medi 2020. Defnyddir croestoriad o ffynonellau – lleol a chenedlaethol, ac mewn rhai achosion, ar draws y DU, er mwyn cael y darlun cyfan neu roi'r effaith leol yn ei gyd-destun.

Y Strategaeth Economaidd - Gair i'ch Atgoffa

Mae'r Strategaeth Economaidd ddrafft wedi'i grwpio yn ôl y pedair thema ganlynol i'n helpu i osod ein blaenoriaethau ar gyfer adfer a thyfu economi Ceredigion dros y bymtheg mlynedd nesaf. Mae pob adran o'r adroddiad hwn yn cynnwys y symbol neu gyfuniad o symbolau isod i ddangos pa thema sydd dan sylw.



Naw Thema i Gefnogi Addasiad Economaidd

Effaith Covid-19

Yn ystod y prosiect hwn, rydym wedi nodi naw prif thema economaidd y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod adfer. Mae'r rhain yr un fath, yn fras, â'r materion a nodwyd yng Ngorffennaf 2020 pan oeddem yn ymchwilio i effeithiau pandemig Covid-19 yng Ngheredigion am y tro cyntaf, ac maent yn fan cychwyn ar gyfer dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr economi ar hyn o bryd. →

1

COLLED INCWM & CYFLOGAETH

Cynnydd arwyddocaol yn yr hawlwr budd-daliadau, yn enwedig pobl 18-24 mlwydd oed.

2

CYSYLLTEDD DIGIDOL

Mynediad i fand llydan a gwasanaethau ffôn symudol i gefnogi siopa ar-lein, cyfathrebiad a mynediad i wasanaethau cyhoeddus o bell.

3

CEFNOGAETH I FUSNESAU BACH

Mae busnesau bach yn enwedig yn agored i niwed oherwydd lleihad yn yr alw, materion llif arian, a phroblemau chadwyni cyflenwi.

4

CEFNOGAETH I SECTORAU / DIWYDIANNAU ALLWEDDOL

Mae'r sectorau gwasanaethau bwyd, twristiaeth ac amaethyddiaeth wedi eu taro'n arbennig o galed.

5

ADDASU I'R 'NORMAL NEWYDD'

Mae busnesau yn ceisio am gefnogaeth wrth addasu eu gweithrediad i gadw staff a defnyddwyr yn ddiogel, gan gynnwys gweithio o gartref

6

CEFNOGI'R GWEITHLU

Caledi ariannol ac yr effaith ar iechyd meddwl, arwahanrwydd, teuluoedd a pherthnasau.

7

FORDDIADWYEDD TAI

Problemau fforddiadwyedd tai sydd yn bresennol yng Ngheredigion yn gwaethygu.

8

HYDER BUSNES A CYHOEDDUS

Hyder busnesau yn gwella ond hyder y cyhoedd yn gostwng wrth i'r 'ail don' agosáu.

9

AIL-LUNIO'R ECONOMI LLEOL

Cyfleoedd i adfywio ac ail-siapiro'r economi lleol trwy gynlluniau a phrosiectau.

Y darlun economaidd cyffredinol a'r effaith ar anghyflogaeth



Mae'r economi mewn dirwasgiad ac mae pryderon, er bod rhai arwyddion petrus o adferiad

Y Darlun Economaidd Cyffredinol



Penawdau Allweddol

20.4%

o ostyngiad yn Gynnyrch Domestig Gros y DU (GDP) yn chwarter 2 (Ebrill-Meh 2020) a gan 2.2% yn y chwarter cyntaf

96%

o fusnesau yng Nghymru sydd yn parhau i fasnachu ac sydd wedi bod am y ddwy wythnos diwethaf (6 Medi)

50.7%

o fusnesau yng Nghymru wedi cofnodi gostyngiad mewn trosiant

27.5%

o fusnesau yng Nghymru wedi nodi bod y nifer o ymwelwyr wedi gostwng

Themâu Allweddol

→ **Economi y DU mewn dirwasgaid**

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol ar ein heconomi, ein hiechyd, ac ar y ffordd mae ein cymdeithas yn gweithredu. Mae busnesau ar draws Cymru wedi'u bwrw'n galed gan y pandemig, ac yn ystod y gwanwyn gwelsom ostyngiad dramatig yn y lefelau cynhyrchu a lefel y galw, ynghyd â tharfu sylweddol ar y cadwyni cyflenwi. Yng Ngorffennaf aeth yr economi i ddirwasgiad yn dilyn dau chwarter o dwf negyddol, gan gynnwys gostyngiad digynsail o 20.4% yn chwarter 2, sef y gostyngiad swyddogol mwyaf erioed.¹

Mae ymchwil wedi dangos bod cefn gwlad Cymru'n cael ei fwrw'n galetach na rhannau eraill o'r DU oherwydd natur ei economi. Yng Ngheredigion amcangyfrifir bod 28.5% o fusnesau wedi cau yn ystod y cyfnod clo, sy'n uwch nag ar draws Cymru.² Mae'r economi leol hefyd yn ddibynnol ar y sectorau a gafodd eu bwrw galetaf, megis twristiaeth a lletygarwch, gyda bron pob busnes twristiaeth yn cau. Mae 7,900 o weithwyr yng Ngheredigion, sef 31%, ar ffyrlo³ ac mae nifer yr hawlwr yn y sir wedi dyblu o leiaf ers mis Mawrth. O ran busnesau, talwyd £28m mewn Grantiau Cymorth Busnes, gan gefnogi 2,346 o fusnesau.⁴

Ond mae yna ambelli i arwydd cynnil o adferiad – tyfodd y Cynnyrch Domestig Gros o 2.1% yn Awst 2020, sef y pedwerydd cynnydd misol dilynol, er ei fod 9.2% yn is o hyd na lefel Chwefror 2020.⁵ Gwelwyd twf pendant yn y diwydiant bwyta i a lletya yn sgil llacio'r cyfyngiadau, y 'cynllun bwyta allan i helpu allan', a phobl yn dewis cymryd gwyliau gartref. Mae'r dystiolaeth ar lawr gwlad yn awgrymu bod nifer o


busnesau twristiaeth wedi cael tymor haf byr ond prysur iawn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio, a chadarnhawyd yr awgrym bod Ceredigion wedi dod yn brif gyrchfan i rai sydd am brynu cartrefi yng Nghymru pan welodd y sir y cynnydd mwyaf o ran prisiau tai ar draws Cymru ym Mehefin, o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol (+11.8%).⁶ Mae hyder busnesau yng Nghymru hefyd wedi codi'n gyson ers Ebrill, ac ymddengys bod yna gynnydd yn nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu.

Fodd bynnag, wrth inni wynebu tymor yr hydref, mae nifer yr achosion o Covid-19 yn y sir wedi cynyddu, i dros gant erbyn hyn. Mi allai'r bygythiad o gyfyngiadau lleol a mwy o amharu ar fusnesau ac aelwydydd fel ei gilydd wrthdroi'r tueddiadau hyn.

Er enghraifft, cynyddodd hyder y cyhoedd dros yr haf wrth i'r cyfyngiadau dddod i ben, ond mae'r canlyniadau diweddaraf yn dangos bod y pryderon yn cynyddu erbyn hyn - mae 59% o oedolion Cymru'n poeni am yr effaith ariannol arny'n nhw'u hunain a'u teuluoedd, sef y ganran uchaf ers Gorffennaf⁷, ac mae 31% yn poeni am eu gallu i dalu eu biliau ar ddiwedd y mis nesaf⁸, y lefel uchaf ers i'r pandemig ddechrau. Mae'n amlwg bod yna bryder difrifol o hyd o fewn yr economi ac aelwydydd unigol wrth inni wynebu misoedd olaf y flwyddyn.

Cynnych Mewnwladol Crynswth y DU

Twf Chwarter ar Chwarter y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth



Mae'r Hawlio Budd-daliadau yng Ngheredigion wedi cynyddu 146% ers mis Mawrth

Diweithdra



Penawdau Allweddol

145%

o gynyddiad yn yr hawlwr budd-daliadau yng Ngheredigion, cynnydd o 830 ym mis Mawrth i 2,045 erbyn Gorffennaf

159%

o gynyddiad yn yr hawlwr budd-daliadau i bobl 18-24 mlwydd oed, cynnydd o 185 ym mis Mawrth i 505 erbyn Gorffennaf

116%

o gynyddiad yn y nifer o bobl sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol ar draws Ceredigion, cynnydd o 2,110 ym mis Mawrth i 4,389 erbyn Medi

59%

o oedolion yng Nghymru yn cytuno 'yn gryf' neu 'yn gryf iawn' bod Coronafeirws yn mynd i gael effaith arnynt a'i theluoedd

Themâu Allweddol

- Cynyddiad arwyddocaol yn yr hawlwr budd-daliadau ers mis Mawrth
- 18-24 mlwydd oed wedi eu heffeithio yn anghymesur
- Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweld y cynnydd mwyaf o hawlwr budd-daliadau
- Hyder cyhoeddus am eu harian a'i swyddi

Mae diweithdra a cholli incwm yn parhau i fod yn un o effeithiau mwyaf gweladwy'r pandemig. Roedd ei effaith ar nifer yr hawlwr yng Ngheredigion ac ar draws y wlad yn gyffredinol yn un di-oed bron, gyda'r nifer yn dyblu a mwy rhwng Mawrth ac Ebrill yn unig, gan godi o 830 i 1,730.⁹

Yn ystod yr haf, roedd y nifer yn dal i godi, gan gyrraedd 2,030 erbyn Gorffennaf, sef cynnydd o 145%. Ers hynny, mae'r nifer wedi gostwng, i 1,990 erbyn Medi, ond mae'n dal i gynrychioli cynnydd o 140% o'i gymharu â mis Mawrth. Dyma'r ail cynnydd mwyaf yn genedlaethol, tu ôl i Bowys (153%). Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn ardaloedd gwledig canolbarth a gorllewin Cymru yn bennaf (Powys, Ceredigion a Gwynedd) ynghyd â Sir Fynwy i'r de.¹⁰

Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i strwythur economïau cefn gwlad Cymru, sy'n dibynnu'n drwm ar dwristiaeth, lletygarwch a'r diwydiant llety a gwasanaethau bwyd, sydd wedi'u bwrw galetaf gan y pandemig yn sgil gorfod cau dros dro, diffyg galw, a staff ar ffyrlo. Ar ben hynny, mae'r economïau hyn yn tueddu i gynnwys canran uchel o fentrau bach iawn (99% yng Ngheredigion) sydd â llai o wydnwch ariannol i allu gwrthsefyll argyfwng, yn nhermau llif arian a chadwyni cyflenwi.¹¹

Mae pobl ifanc yn un o'r grwpiau sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur yng Ngheredigion. Cynyddodd nifer yr hawlwr 18-24 oed 173% rhwng Mawrth a Gorffennaf, gan


godi o 185 i 505.¹² Ers hynny mae'r nifer wedi gostwng, i 480 erbyn mis Medi, ond mae dal yn gynydd o 159% o'i gymharu â mis Mawrth.

Mae manylion y cyfraddau diweithdra'n tueddu i fod ychydig o fisoedd ar ei hôl hi, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cyfradd Ceredigion yn 2.7% ym Mehefin, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 3.6%.¹³

Mae'r sir yn wynebu cyfnod allweddol o'r pandemig wrth i ddiwedd y cynllun ffyrlo nesáu. Y pryder yw y gallai hyn arwain at ddiswyddiadau a chynnydd pellach yn nifer yr hawlwr wrth i fusnesau ystyried eu hyfywedd hirdymor. Mae cau busnesau'n arwain at nid yn unig golli swyddi o'r economi, ond at golli'r busnesau eu hunain o seilwaith economaidd y sir.

Serch rhai arwyddion o adferiad o ran recriwtio a swyddi gwag yng Nghymru, mae hyder y cyhoedd o ran cyflogaeth yn parhau i beri pryder – mae 59% o'r farn y bydd Covid-19 yn cael effaith ariannol arny'n nhw a'u teuluoedd,¹⁴ ac mae 40% yn poeni ychydig neu lawer am golli eu gwaith.¹⁵

Cyfrif Hawlwr Budd-daliadau yng Ngheredigion
Y Cyfrif Hawlwr Budd-daliadau yng Ngheredigion (holl hawlwr)



Yr effaith ar sectorau allweddol a chefnogaeth i fusnesau bach



Mae sectorau allweddol megis gwasanaethau llety a bwyd, amaethyddiaeth a thwristiaeth wedi eu heffeithio yn ddifrifol

Sectorau Allweddol



Penawdau Allweddol

97%

o fusnesau twristiaeth yng Nghymru wedi cau yn ystod y cyfnod clo, a dim ond 51% wedi gweithredu yn llawn ar ôl i'r cyfnod clo dod i ben

78%

o fusnesau twristiaeth yng Nghymru wedi agor yn ystod yr haf

£403m

yd'r amcangyfrif y cyfanswm economaidd o'r diwydiant twristiaeth yn economi Ceredigion

Themâu Allweddol

→ **Tyfiant arwyddocaol i'r diwydiant twristiaeth yng Ngheredigion yn 2019**

→ **Diddymiadau a llai o fwcia dau wedi'i ragweld yn yr Hydref**

Cydnabyddir yn eang bod rhai diwydiannau, megis twristiaeth, llety a gwasanaethau bwyd, ac amaethyddiaeth wedi'u bwrw'n arbennig o galed yn ystod y pandemig, sef diwydiannau sy'n rhan hanfodol o economi Ceredigion. Er enghraifft, caeodd bron pob busnes twristiaeth (97%) yn ystod y cyfnod clo, nid yn unig yng Ngheredigion ond ar draws y wlad, gan gyfrannu at y 7,900 o weithwyr ffyrlo ar draws y sir.¹⁶

Fodd bynnag, unwaith bod y cyfnod clo wedi dod i ben a'r cyfyngiadau ar deithio wedi'u codi, amcangyfrifir bod ychydig dros dri chwarter y busnesau twristiaeth (78%) wedi agor dros yr haf, ac roedd tua hanner y rheiny (51%) yn gweithredu yn ôl eu capasiti llawn.¹⁷

Yng Ngheredigion, serch tystiolaeth ar lawr gwlad sy'n awgrymu bod *rhai* busnesau, yn enwedig rhai hunanarlwyo a manwerthu bwyd, wedi mwynhau tymor haf byrrach ond prysur iawn ym mis Awst, mae'r effaith gyffredinol wrth inni wynebu'r hydref a'r posibilrwydd o gyfyngiadau lleol, yn debygol o olygu y bydd y flwyddyn anodd iawn o fasnachu yn parhau. Rhagwelir y bydd nifer yr ymwelwyr i lawr yn ystod misoedd yr hydref, gyda nifer fawr yn canslo, a llai o lawer nag arfer yn archebu gwyliau.

Mae hyn yn digwydd yn erbyn cefnlen o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a sector twristiaeth cryf yn y sir yn 2019. Cynyddodd cyfanswm yr ymwelwyr 3.9% i 2.94 miliwn, cynyddodd cyfanswm y diwrnodau twristiaeth 2.9% i 8.77 miliwn, ac amcangyfrifir bod cyfanswm effaith economaidd twristiaeth wedi cynyddu 6.2% i £403 miliwn. Hyd yr adeg honno, gwelwyd hefyd gynnydd o 4.5% yn nifer y swyddi yn y sector, gyda thua 5,800 o bobl yn cael eu cyflogi ar draws y sir.¹⁸

Mae dinasyddion Ewrop yn chwarae rôl allweddol yng ngweithlu twristiaeth a lletygarwch Cymru, ac felly mae pob busnes twristiaeth yn cael ei annog i gynorthwyo ei weithwyr UE i wneud cais am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS).

Elfen arall hynod bwysig o economi Ceredigion yw'r 1,400 o swyddi yn y sector Amaethyddiaeth (gan gynnwys ffermio), Coedwigaeth a Physgota, sy'n cynrychioli tua 4.5% o swyddi yn y sir, ac yn arbennig y diwydiant llaeth a chynnyrch llaeth yn ne'r sir.¹⁹

Yn ôl NFU Cymru, gwelwyd cwmp o 70% yn y galw am laeth am fod caffis, siopau coffi a phroseswyr llaeth eraill wedi cau. Adroddir bod gwerthiant proseswyr llaeth sy'n cyflenwi gwasanaethau bwyd neu farchnadoedd cyfanwerthu wedi gostwng 50-60%.²⁰

Ar ben yr effeithiau masnachol amlwg, mae yna bryder ynghylch unigrwydd ac ynysu cymdeithasol ymhlith ffermwyr. Mae canllawiau pellter cymdeithasol yn golygu bod sioeau amaethyddol wedi'u canslo eleni, gan olygu mai prin iawn yw'r cyfleoedd i gwrdd â chyfoedion.

Y sector llety a gwasanaethau bwyd yw'r pedwerydd sector mwyaf yng Ngheredigion ac mae'n cyflogi 3,500 o bobl. Dyma hefyd un o'r sectorau a gafodd ei furw galetaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau - caeodd 81% o fusnesau neu roi'r gorau i fasnachu dros dro yn ystod yr haf, ac nid yw'n syndod felly mai'r sector hwn oedd â'r gyfran uchaf o weithwyr ffyrlo, sef 73%.²¹

Mae busnesau bach yn wynebu materion llif arian, galw a chadwyni cyflenwi

Cefnogaeth Busnesau Bach

Penawdau Allweddol

99%

o fusnesau yng Ngheredigion nail llai yn fusnesau micro (1-9 gweithwyr) neu faint bach (10-49) gweithwyr

£28m

mewn grantiau cefnogi busnesau wedi eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion ac wedi eu dosbarthu erbyn Medi 2020

2,346

o fusnesau wedi eu cefnogi trwy grantiau cefnogi busnesau ar draws y sir

2,800

o hawliadau Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth wedi eu gwneud ar draws Ceredigion yn ystod mis Awst, sydd yn hafalu at 50% o'r rhai sydd yn gymwys

Themâu Allweddol

- Mae busnesau bach yn wynebu materion llif arian, galw a chadwyni cyflenwi
- Mae busnesau bach yn ddibynnol ar grantiau neu fentrau arall.
- Mae nifer o'r hunangyflogedig yng Ngheredigion yn cyrchu'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth

Mae busnesau bach yn arbennig o agored i niwed yn ystod cyfnodau ansicr fel pandemig y Coronafeirws o bersbectif y galw, llif arian a'r gadwyn gyflenwi.

Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd mae economi Ceredigion yn cynnwys 92% o fusnesau 'micro' sy'n cyflogi hyd at 9 o staff, ac mae hyn yn codi i 99% o gynnwys busnesau 'bach' sy'n cyflogi 10-49 o staff.²²

Ar draws Cymru, mae cyfran uwch o fusnesau wedi gwneud cais am grantiau busnes (25.5%) nag yn unrhyw ran arall o'r DU (16.5%),²³ i'w cynorthwyo drwy'r pandemig. Yng Ngheredigion, roedd ychydig dros £28 miliwn wedi'i dalu mewn grantiau cymorth busnes erbyn diwedd Medi, i gynorthwyo rhai o'r 2,346 o fusnesau ar draws y sir, sy'n cyfleu graddfa'r cymorth oedd ei angen ar yr economi leol.²⁴

Mae busnesau llai o faint gyda llai na 250 o weithwyr yn fwy tebygol o lawer o wneud cais am grantiau cymorth busnes, benthyciadau achrededig, neu gy-tundebau cyllid a gefnogir gan y llywodraeth, na busnesau mwy o faint, ac mae hynny'n adlewyrchu gwydnwch ariannol busnesau llai o faint.²⁵

Yn ogystal â gwydnwch ariannol, gwyddom hefyd bod busnesau bach wedi'u heffeithio'n arbennig. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod clo, caeodd cyfran uwch o fusnesau bach (24.7%) dros dro ar draws y DU o'i gymharu â busnesau mwy o faint (19.7%).²⁶

Ar ben hynny, ym Medi 2020, dywedodd cyfran uwch o fusnesau bach (7.1%) bod eu costau gweithredu 20% yn fwy na'u trosiant, sef canran uwch na busnesau mwy o faint (5.9%). Hefyd, mae cyfran uwch o fusnesau llai o faint (13.3%) yn dal i fod â mwy o staff ar ffyrlo na


busnesau mwy o faint (10.2%).²⁷

Yng Ngheredigion, mae yna 8,800 o bobl hunangyflogedig, gyda'r gyfran fwyaf ohonynt yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Gall colli incwm neu swyddi o fewn y busnesau hyn gael effaith fawr ar yr economi leol. Cyflwynwyd y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig i gynorthwyo'r rhai sydd wedi'u heffeithio. Mae'r grantiau cyntaf yn dangos bod 4,200 o geisiadau yng Ngheredigion ym mis Gorffennaf, gyda symiau grant cyfartalog o £2,500 a chyfanswm o £106m yn cael ei ddsbarthu. Cyflwynwyd ceisiadau gan 76% o'r rhai oedd yn gymwys, sydd ychydig yn is nag ar draws Cymru gyfan (78%).²⁸ Ar ôl i'r cyfyngiadau godi, gostyngodd y nifer yn sylweddol yn Awst, wrth i lawer o bobl hunangyflogedig ail-ddechrau gweithio. Serch hynny, mae'r ail rownd o geisiadau'n dangos bod 2,800 wedi hawlio ym mis Awst, sy'n dal i gyfateb i 50% o'r rhai oedd yn gymwys, er bod hynny dal yn is na'r ganran a hawliodd dros Gymru gyfan (59%).²⁹

Mae hyder ymhlith busnesau bach yn parhau i fod yn isel – yn ôl ymchwil gan Sage nid yw 79%³⁰ o'r busnesau a arolygwyd yn disgwyl gwneud yr un elw ag y gwnaethant cyn y pandemig erbyn diwedd 2020, a dywedodd 86% y byddai ail don o'r feirws yn cael effaith negyddol.³¹

Cymorth Hunangyflogedig

Nifer yr hawliadau Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yng Ngheredigion



Cymorth ariannol i fusnesau a'r farchnad tai



Mae nifer o fusnesau yng Ngheredigion yn ddibynol ar grantiau busnes a mentrau ariannol arall yn ystod y pandemig

Mewn ymateb i'r pandemig, mae amryw o gynlluniau gwahanol wedi bod ar gael i fusnesau bach, i'w helpu drwy'r cyfnod clo cyntaf ac ymlaen i'r cyfnod adfer. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynlluniau hyn yn amrywio yn ôl y mathau gwahanol o fusnes, er bod llawer o fusnesau ar draws Cymru wedi dibynnu ar y cymorth ariannol hwn i'w cadw i fynd yn ystod y pandemig.

Er enghraifft, erbyn diwedd Medi, roedd Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu bron i £300 miliwn o gymorth i dros 13,000 o gwmnïau yng Nghymru, fel rhan o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Roedd Cam 2 y gronfa'n targedu busnesau micro a busnesau bach a chanolig, sef y math fwyaf cyffredin o fewn economi Ceredigion.³²

Mae'r awdurdodau lleol eu hunain wedi prosesu 64,300 o grantiau gwerth cyfanswm o £765m ar gyfer y Grant Ardrethi Busnes Covid-19.³³ Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o fusnesau wedi derbyn y grant hwn yng Nghymru (34.6%) nag ar draws y DU (28.6%).³⁴

Mae Banc Datblygu Cymru wedi dyrannu bron i £100 miliwn i dros 1,200 o fusnesau. Mae £25m wedi'i ddyrannu i gwmnïau yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda £1.876 miliwn yn cael ei fuddsoddi yng Ngheredigion, sef tua 10% o'r cyfanswm a fuddsoddiwyd, ac amcangyfrifir y bydd hwnnw'n

diogelu 241 o swyddi yn y sir. Mae ychydig dros £1m wedi'i fuddsoddi'n benodol mewn cwmnïau yn y sector llety a gwasanaethau bwyd, gan ddiogelu 151 o swyddi. Mae £280,000 pellach wedi'i fuddsoddi mewn cwmnïau o fewn diwydiannau amaethyddol, £204,000 mewn gweithgareddau gwyddonol a thechnegol, a £90,000 mewn gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol.³⁵

Yng Ngheredigion, erbyn mis Medi, roedd 2,346 o geisiadau am Grantiau Cymorth Busnes wedi'u cymeradwyo, ac ychydig dros £28 miliwn wedi'i ddyrannu i fusnesau lleol, i helpu i ddiogelu swyddi, gan gyfleu graddfa'r cymorth oedd ei angen ar yr economi leol. Mae hyn, ar y cyd â'r nifer fawr o fusnesau yng Nghymru sydd wedi manteisio ar y cynlluniau, yn dangos sut mae economi Cymru, ac yn arbennig ardaloedd gwledig, yn cael eu bwrw'n galetach na gweddill y DU, oherwydd strwythur a chyfansoddiad eu heconomiâu.³⁶


Ni wyddys cymaint am effaith y cynlluniau cymorth hyn ar hyn o bryd, am fod rhai busnesau'n asesu eu sefyllfa ariannol a'u hyfywedd dros y tymor hirach yng ngoleuni ail don o'r feirws a 'chyfnod atal byr'.

Yn genedlaethol, mae bron i dri chwarter (73.6%) y busnesau'n datgan bod y cymorth a gawsant gan y cynlluniau hyn wedi'u helpu i ddal ati i fasnachu, sy'n uwch na phob rhanbarth arall yn y DU. Fodd bynnag, roedd 9.6% pellach yn ansicr, a dywedodd 16.9% nad oedd wedi effeithio ar eu gallu i ddal ati i fasnachu.³⁷

Cynlluniau cymorth busnesau

Y gyfran o fusnesau Cymru sydd wedi ymgeisio am y mentrau cymorth busnesau canlynol 7fed i 20fed Medi 2020

▼ Canran



Cymorth ariannol i fusnesau



Penawdau Allweddol

£300m

wedi talu allan i fusnesau Cymraeg trwy'r Gronfa Hydwythedd Economaidd

£765m

mewn dyfarniadau i fusnesau Cymraeg trwy'r Grant Cyfraddau Busnes Coronafeirws

£28m

mewn grantiau cymorth busnesau wedi'i gweinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion a'i dosbarthu erbyn Medi 2020

25.5%

o fusnesau yng Nghymru wedi ymgeisio am grantiau busnes sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, llawer mwy uwch na gweddill y DU (16.4%)

Themâu Allweddol

- Mae busnesau yng Nghymru llawer mwy tebygol o ymgeisio am grantiau cymorth busnes
- Buddsoddiad Banc Datblygu Cymru yng Ngheredigion mewn gwasanaethau llety a bwyd, a'r sectorau amaethyddol
- Yr ail don yn rhoi busnesau o dan fwy o strain

Yn ystod 2020 roedd y cynyddiad yn brisiau tai yn fwy uchel yng Ngheredigion i gymharu â gweddill Cymru

Y Farchnad Dai a Fforddiadwyedd



Penawdau Allweddol

8.8%

o gynyddiad mewn prisiau tai yn Awst 2020 i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

£199,225

oedd y pris cyfartalog tai yng Ngheredigion i gymharu â £185,554 yn Ebrill ar ddechrau'r pandemig

Themâu Allweddol

- Yr alw am rinweddau yn cynyddu yng Ngheredigion
- Cynyddiad yn prisiau tai yng Ngheredigion y rhai mwyaf uchel ar draws Cymru
- Cymhareb fforddiadwyedd yng Ngheredigion yn cynyddu i.e llai fforddiadwy

Yn draddodiadol, mae prisiau tai wedi aros yn gymharol uchel yng Ngheredigion, tua 20-40% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o alw am eiddo mewn ardaloedd gwledig, gan olygu bod prisiau tai yng Ngheredigion wedi codi'n sydyn. Fodd bynnag, mae'r prisiau tai uwch yn gwrthgyferbynnu â'r gostyngiad yn incwm aelwydydd, sy'n debygol o olygu y bydd llai o bobl yn gallu ffordd tai yn y sir.

Wrth i'r cyfyngiadau ddod i rym at ddiwedd Mawrth, daeth marchnad eiddo'r DU gyfan i stop. Cafodd hynny effaith ar dwf y farchnad a chwmpodd prisiau tai cyfartalog yng Ngheredigion 1.3% ym Mawrth, i £185,554.³⁹ Er hynny, roedd y prisiau cyfartalog yn y sir ym Mawrth 2020 yn dal i fod yn uwch na ffigurau Mawrth 2019.

Agorodd y farchnad dai yng Nghymru yn rhannol ar 22ain Mehefin, gan arwain at gynydd sydyn yn y prisiau tai yng Ngheredigion. Mae ffigurau diweddaraf y Mynegai Prisiau Tai yn dangos twf sylweddol ym mhrisiau tai Ceredigion yn Awst 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 8.8% i £199.225⁴⁰ Y twf hwn oedd yr uchaf o bell ffordd ymhlith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal â'r cynnydd sydyn ym mhrisiau tai, mae tystiolaeth bellach yn awgrymu bod gwerthiant tai yng Ngheredigion hefyd ar ei anterth. Yn ôl Savills UK, ym Medi 2020 Ceredigion oedd y lleoliad oedd yn perfformio orau, gyda gwerthiant i fyny 181% o'r llynedd.⁴¹

Gall y cynnydd hwn mewn prisiau yn ystod Mehefin a Gorffennaf adlewyrchu i raddau y


galw cronodig yn sgil codi'r cyfyngiadau. Yn ogystal, mae'n debygol bod y pandemig wedi gwneud i lawer o bobl ail-asesu eu ffordd o fyw, a'u trefniadau byw a gweithio. Mae'r dystiolaeth anecdotaidd gan werthwyr tai lleol yn awgrymu bod yna gynydd sylweddol yn y nifer o ymholiadau gan bobl sydd am brynu tai er mwyn gallu symud i gefn gwlad Ceredigion, i ffwrdd o'r trefi a'r dinasoedd mwy poblog. Mae'r pryder yn un deublyg:

- Mae'n gyrru prisiau tai a rhenti i fyny, gan olygu eu bod yn llai fforddiadwy i bobl leol.
- Mae'n dwysau'r pryder presennol bod prisiau uchel yn gwneud hi'n anodd i weithwyr symud i fyw i'r ardal.

Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn un o'r prif heriau yn lleol ac yn genedlaethol. Yn aml, mesurir fforddiadwyedd drwy ddefnyddio cymhareb prisiau tai ac enillion; mae cymhareb uwch yn golygu lefel is o fforddiadwyedd ac i'r gwrthwyneb. Rhwng 2018 a 2019 cododd cymhareb fforddiadwyedd Ceredigion o 7.1 to 7.3 gan olygu ei fod yn llai fforddiadwy.⁴² Mae cymhareb fforddiadwyedd Ceredigion yn debygol o gynyddu yn 2020 am fod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar incwm aelwydydd (e.e. drwy golli swyddi a ffyrlo), gan yrru prisiau tai i fyny ar yr un pryd.

Prisiau Cyfartalog Tai yng Ngheredigion

Cynyddiad yn brisiau cyfartalog tai ar draws y sir yn ystod 2020



Yr effaith ar swyddi gwag, recriwtio ac amlygiad y gweithlu i Covid-19



Arwyddion o adferiad yng Nghymru ond mae'r lefel o swyddi gwag yn parhau i fod o dan y lefelau cyn y pandemig

Yn aml, ystyrir swyddi gwag fel arwydd cynnar o weithgaredd economaidd. Ers dechrau 2019, mae hysbysebion swyddi ar-lein wedi bod yn gymharol sefydlog, ond roedd effaith y cyfnod clo yn un di-od bron. Rhoddodd nifer o sefydliadau y gorau i recriwtio, un ai dros dro, neu nes bod y cyfnod clo wedi dod i ben.

Yn ôl Cyllid a Thollau EM, anfonwyd 9.6 miliwn o weithwyr adre ar ffyrlo yn sgil cyfyngiadau'r cyfnod clo, gan gynnwys 7,900 yng Ngheredigion.⁴³ Nid yw'n syndod felly i nifer hysbysebion swyddi DU ostwng dros 50% rhwng Mawrth a Mai.⁴⁴ Yr unig faes na chafodd ei effeithio'n gyffredinol oedd iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd yr angen brys am staff i gwrrdd â gofynion yr argyfwng. Y meysydd a welodd y gostyngiad mwyaf oedd arlwydd a lletygarwch, a chyfanwerthu a manwerthu, ynghyd â gostyngiad llai ym myd addysg. Erbyn Mehefin, roedd nifer yr hysbysebion swyddi ym maes arlwydd a lletygarwch, sef rhan allweddol o economi Ceredigion, yn parhau i ostwng, gan gyrraedd y lefel isaf erioed o'i gymharu â lefel 2019, sef 18.1%.⁴⁵

Ers hynny, mae nifer yr hysbysebion swyddi'n parhau i fod yn is na chyn y pandemig, ond mae yna arwyddion o adferiad sylweddol serch hynny. Yn ôl safle swyddi ar-lein Adzuna, cynyddodd nifer yr hysbysebion swyddi ar-lein ar draws pob diwydiant yng Nghymru

rhwng Mehefin a Hydref, o 43.1% i 73.0% o'i gymharu â lefel gyfartalog 2019. Er bod hyn efallai'n tystio i raddau bod yna adferiad yn y galw am lafur yn gyffredinol, mae'r dosbarthiad wedi tueddu i fod yn anghyfartal ar draws y categorïau. Er enghraifft, gwelwyd y cynnydd mwyaf ym maes trafndiaeth/warysau a chyfleusterau/cynnal a chadw, a oedd wedi codi i dros 140% o'i gymharu â lefel gyfartalog 2019 erbyn mis Hydref. Yn ogystal, mae hysbysebion Gwerthwyr Tai wedi cynyddu yn sgil y twf sydyn mewn gwerthiant, sydd i'w weld yn fwyaf amlwg yng Ngheredigion.⁴⁶ Gwelwyd llai o gynnydd ym maes lletygarwch ac arlwydd, a chyfanwerthu a manwerthu, gyda'r swyddi gwag yn parhau i fod yn is na 50% o'u lefelau cyfartalog yn 2019.⁴⁷

Mae'r pandemig wedi newid y math o swyddi gwag a hysbysebir ar-lein, gan effeithio yn ei dro ar gyfanswm cyflog cyfartalog swyddi gwag yng Ngheredigion. Yn ôl Adzuna, mae cyflog blynyddol cyfartalog y swyddi a hysbysebir wedi gostwng o £30,840 yn Chwefror i £27,300 ym Medi, gostyngiad o £3,810 (12.4%) ers yr argyfwng.⁴⁸ Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y galw cynyddol am ofalwyr, staff gwasanaethau cwsmeriaid, gyrrwyr dosbarthu, a gwaith rhan-amser, sydd oll yn tueddu i fod â chyflog is.

Er bod nifer y swyddi a hysbysebir ar-lein yn parhau i fod yn is na chyn y pandemig,

mae'r nifer yn dal i gynyddu. Mae'n anodd rhagweld beth fydd y tueddiadau hirdymor o ran swyddi gwag, yn arbennig wrth inni wynebu ail don o'r pandemig.

Swyddi Gwag a Recriwtio



Penawdau Allweddol

30%pts

o gynyddiad mewn hysbysebion swyddi ar lein ar draws holl ddiwydiannau Cymru rhwng Mehefin a Hydref

12.4%

o ostyngiad yn gyflog cyfartalog swyddi gwag oherwydd bod y pandemig wedi newid y math o swyddi gwag sy'n cael i'w hysbysebu


Themâu Allweddol

- Swyddi gwag yn dangos arwyddion o adferiad yng Nghymru ond dal i fod o dan y lefelau cyn y pandemig
- Adferiad yn anwastad ar draws sectorau
- Swyddi gwag o fewn y sector cerbydau a chludiant wedi cynyddu ychydig
- Swyddi gwag o fewn lletygarwch ac arlwydd wedi parhau i aros yn isel
- Gostyngiad yn gyflog swyddi gwag yng Ngheredigion

Swyddi gwag yng Nghymru

Cyfanswm hysbysebion swyddi ar lein i bob diwydiant yng Nghymru (2019-20)

▼ Canran (Mynegai 2019 cyfartaledd = 100 pwyntiau canranol)



Gweithwyr Allweddol yn parhau i bryderu am eu diogelwch yn y gwaith

Amlygiad y Gweithlu i Covid-19



Penawdau Allweddol

22%

o breswylwyr yng Nghymru yn poeni 'llawer' am fod yn sâl iawn gyda'r firws

9%

o gartrefi yng Nghymru gydag o leiaf un gweithiwr gofâl iechyd a cymdeithasol o Grŵp 1, yn uwch na'r DU ar y cyfan (7%)

39.6%

o weithwyr yn ofâl Cymdeithasol yn dweud eu bod nhw'n pryderu am eu hiechyd a diogelwch

75%

o weithwyr gofâl iechyd a rolau arall gydag amlygiad sy'n cynyddu i'r firws, yn fenywod

Themâu Allweddol

→ Gweithwyr allweddol yn parhau i bryderu am eu diogelwch yn y gwaith

→ Mae gweithwyr yn y gwasanaethau gofâl cymdeithasol efo raddau fwy o farwolaethau oherwydd Covid-19

→ Ardaloedd amddifadus yng Nghymru gyda graddau llawer uwch o farwolaethau oherwydd Covid-19

Yn ogystal â'r goblygiadau ariannol i weithwyr sydd ar ffyrlo neu wedi colli incwm, maent yn dal i bryderu ynghylch diogelu eu hiechyd corfforol rhag Covid-19.

Mae rhai galwedigaethau yn fwy agored i niwed nag eraill, ac mae'r cyhoedd yn dal i fod yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o ddal y feirws – mae 22% o drigolion Cymru'n poeni 'llawer' ynghylch bod yn ddifrifol wael gyda'r feirws eu hunain, ac mae bron i hanner (47%) yn dal i boeni am golli anwyl yn i coronafeirws.⁴⁹

Mae rhai grwpiau o alwedigaethau yn dal i fod â chyfradd uwch o farwolaethau'n gysylltiedig â Covid-19, o'i gymharu â'r gyfradd ymhlith pobl o'r un oedran a rhyw o fewn y boblogaeth.

Gwyddom fod gan Gymru gyfran uwch o aelwydydd gydag o leiaf un gweithiwr iechyd a Gofâl Cymdeithasol allweddol o Grŵp 1 nag ar draws y DU (Cymru 9%, DU 7%). Mae Grŵp 1 yn cynnwys Ymarferwyr Meddygol, Nyrsys, Bydwagedd, Gweithwyr Paramedig, Nyrsys Cynorthwyl a Chynorthwylwyr Nyrsio, Gweithwyr Gofâl, Gofalwyr Cartref ac Uwch Weithwyr Gofâl.⁵⁰ Ystyrir bod 41.5% o weithlu Ceredigion yn weithwyr hanfodol.⁵¹

Mae hyn yn arwyddocaol am fod cyfraddau sylweddol uwch o farwolaethau'n gysylltiedig â Covid-19 ymhlith gweithwyr gofâl cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr gofâl a gofalwyr cartref, o'i gymharu â phobl o'r un oedran a rhyw ar draws y boblogaeth yn gyffredinol. Maent hefyd yn fwy tebygol o adrodd bod coronafeirws yn cael effaith ar eu

bywydau, er enghraifft, mae mwyafrif y gweithwyr allweddol (59.7%) yn dweud bod y pandemig yn cael effaith sylweddol ar eu gwaith, ac o'r rheiny, dywed 39.6% eu bod yn poeni am eu hiechyd a'u diogelwch.⁵²

Y gweithwyr sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i coronafeirws yw'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofâl iechyd, lle maent yn dod i gysylltiad cyson â chleifion, ac mae tri chwarter (75%) y gweithwyr gofâl iechyd a rhai mewn swyddi eraill sy'n fwy agored i'r clefyd, yn fenywod.⁵³


Y tu hwnt i gyd-destun gwaith, mae yna gydberthynas hefyd rhwng difreintiad a marwolaethau o goronafeirws – yng Nghymru, roedd gan ardaloedd oedd ymhlith y pumed mwyaf difreintiedig 109.5 o farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 am bob 100,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn bron ddwywaith cymaint â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (57.5 o farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth), sy'n codi'r cwestiwn o anghydraddoldeb economaidd ac iechyd.⁵⁴

Wrth roi cyfrif am y gwahaniaeth rhwng galwedigaethau, gall ffactorau fel lefel y cysylltiad ag eraill cyn ac yn ystod y cyfnod clo, y gallu i weithio gartref, p'un ai rhoddwyd gweithwyr ar ffyrlo, a ble mae rhywun yn byw, fod yn chwarae rôl.

Gweithwyr Allweddol

Canran o'r gweithlu sydd yn 'weithwyr allweddol'

▼ Canran



Yr effaith ar weithwyr ymfudol a chyflog



Gweithwyr ymfudol yn cael i'w effeithio gan Covid-19

Gweithwyr Ymfudol



Penawdau Allweddol

7.5%

o weithwyr llawn amser yng Nghymru yn fewnfudwyr

6.6%

o boblogaeth Ceredigion, amcangyfrif bod nhw wedi geni dramor

3.9%

o boblogaeth Llanbedr Pont Steffan wedi'i eni yn Wlad Pwyl, y wlad enedigol fwyaf poblogaidd ar ôl Cymru a Lloegr

15%

o'r rhai sydd angen cofrestru ar gyfer y Cynllun Statws Preswyllo'n Sefydlog wedi cofrestru

Themâu Allweddol

→ Gweithwyr Ymfudol wedi effeithio yn sefydlog

→ Debygol o weithio mewn diwydiannau sydd wedi'i effeithio gan Coronafeirws

→ Nifer isel o weithwyr ymfudol wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Statws Preswyllo'n Sefydlog

Yn gyfan gwbl, mae ymfudwyr yn cyfrif am tua 7.5% o weithwyr amser llawn yng Nghymru.⁵⁵ Mae'r diwydiant llety a gwasanaethau bwyd yn cyfrif am tua 4.13% o weithwyr, gweithgynhyrchu am 4.22% ac iechyd a gofal cymdeithasol am 2.07%.⁵⁶ Mae economi Cymru'n ddibynnol ar amryw o weithwyr rhyngwladol gwahanol ar draws y sbectrwm sgiliau, gydag amaethyddiaeth, gwasanaethau bwyd a gweithgynhyrchu'n rhan allweddol o economi Ceredigion.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, o 2019 ymlaen amcangyfrifir bod tua 6.6% o boblogaeth Ceredigion wedi'u geni dramor, gyda'r mwyafrif yn fewnfudwyr UE.⁵⁷ Y gymuned Bwylaidd yw'r grŵp mwyaf o fewnfudwyr yn y sir, ac maent wedi setlo'n bennaf yn ward Llanbedr Pont Steffan. Caiff y mwyafrif eu cyflogi yn y safle prosesu cig yn Llanybydder, tra bod nifer llai yn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol fel cynorthwyrwyr gofal a gofawyr cartref.⁵⁸

Yn ariannol, mae gweithwyr sy'n fewnfudwyr yn arbennig o agored i niwed. Er bod gan nifer ohonynt swyddi allweddol megis yn y sector gofal, mae Sefydliad Bevan yn pwysleisio bod nifer yn cael eu cyflogi gan asiantaethau, a hynny'n ysbeidiol ac ar gontractau dim oriau. Mae fewnfudwyr yn fwy tueddol o golli eu swyddi neu gael llai o dâl, maent yn bell i ffwrdd o rwydweithiau cymorth teuluol, ac yn aml maent yn wynebu rhwystrau ieithyddol a diwylliannol.

Ar adeg pan mae cyflogau'n cael eu cwtogi, gweithwyr ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi, y pryder yw bod fewnfudwyr yn

wynebu mwy o berygl o galedi ariannol a dibyniaeth ar gymorth ariannol.

Mae yna bryder cynyddol hefyd bod y pandemig yn peryglu'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae dyddiad cau'r cynllun yn prysur nesáu ac mae 'na lawer o fewnfudwyr o hyd sydd ddim yn gwybod amdano.

Mae'r pandemig wedi atal y cymorth wyneb yn wyneb y mae llawer o fewnfudwyr yn dibynnu arno i'w helpu i lenwi eu ceisiadau. Adroddodd Cyngor Sir Ceredigion mai dim ond 15% o'r rhai oedd angen cofrestru oedd wedi gwneud cais ar ddiwedd Awst 2019.⁵⁹


Y pryder yw y bydd llawer o weithwyr sy'n fewnfudwyr yng Ngheredigion yn colli'r dyddiad cau, gan olygu eu bod mewn sefyllfa fregus iawn, oherwydd byddant yn colli eu hawliau i nifer o wasanaethau, gan gynnwys budd-daliadau iechyd a budd-daliadau'r wladwriaeth. Yn ogystal, mi fyddai hynny'n effeithio ar eu gallu i weithio.

Mae gweithwyr sy'n fewnfudwyr yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd. Maent nid yn unig yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan yr argyfwng, ond mae'r ffaith nad ydynt efallai'n gwybod am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn golygu eu bod mewn sefyllfa fregus iawn.

Gwlad enedigol

Gwlad enedigol preswylwyr Ceredigion (heblaw am Gymru a Lloegr)

▼ Canran



Roedd cyflog wedi gostwng ym mis Ebrill ond yn gwella yn fwy cloi na'r DU

Effaith ar cyflog



Penawdau Allweddol

2.4%

o ostyngiad i gyflog misol ar gyfer gweithwyr Cymru yn Ebrill 2020, i gymharu â Mawrth 2020

5.6%

o gynyddiad yn gyflog misol ers mis Ebrill 2020, i gymharu â chynyddiad o 4.3% ar draws y DU

£1,800

oedd y cyflog misol yng Nghymru yn Medi 2020, fwy isel na'r DU ar y cyfan (£1,905)

Themâu Allweddol

- Gostyngodd cyflog yn sefydlog yn Ebrill 2020 pan oedd y pandemig ar ei gwaethaf
- Cyflog wedi bod yn gwella ers Mai
- Cyflog yng Nghymru yn parhau i fod o dan y DU

Pan gyrhaeddodd y pandemig Gymru yn y lle cyntaf ym Mawrth 2020, roedd yr effaith ar gyflogau gweithwyr Cymru i'w weld ar unwaith.

Gwelwyd effaith cau busnesau a rhoi gweithwyr ar ffyrlo ar incwm aelwydydd unigol, gyda'r canolrif cyflog misol yn gostwng 2.4% yng Nghymru rhwng Mawrth ac Ebrill, a 2.9% ar draws y DU gyfan. Roedd y gostyngiad hwn yn golygu bod y canolrif cyflog ar ei lefel isaf yng Nghymru ers Mawrth 2019.⁶⁰

Er gwaethaf hyn, a'r proffwydo cynnar y byddai twf cyflog yn dod i stop ar draws Cymru, roedd yr adferiad cyflog bron yn ddioed, gyda chwe mis dilynol o dwf cyflog wedi hynny. Erbyn Mehefin, roedd wedi adfer i'r lefelau cyn y pandemig, ac erbyn Medi 2020 roedd wedi cynyddu 6.6% ers Ebrill, oedd yn uwch na'r gyfradd twf ail uchaf ar draws y DU. O'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol, y gyfradd twf yng Nghymru yw'r uchaf ar draws y DU, sef 5.6%, o'i gymharu â 4.3% ar gyfer y DU.⁶¹

Cyn y pandemig, roedd y twf cyflog yng Nghymru'n cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r tueddiadau twf cyflog dros y ddwy flynedd flaenorol, oedd yn amrywio rhwng 2.4% a 4.3%. Roedd y twf yn Chwefror 2020 yn unig yn un cryf, sef 3.6%, y cynnydd mwyaf ers Hydref 2019.⁶²

Serch yr arwyddion positif, nid yw hyn wrth gwrs yn cynnwys aelodau o'r gweithlu sydd wedi'u diswyddo ac nad ydynt


bellach yn derbyn cyflog. Ar ben hynny, mae'r effeithiau ar dâl yn fwy amlwg yng Nghymru nag ar draws y DU, er enghraifft, ym Medi 2020, roedd y canolrif cyflog misol wedi codi i £1,800, ond roedd hynny'n dal i fod yn is na'r £1,905 ar gyfer y DU.⁶³ Cyn y pandemig, roedd y gyfradd twf yng Nghymru (3.40%) ychydig yn is nag un y DU (3.47%) yn y deuddeg mis hyd at Fawrth 2020.⁶⁴

I nifer o aelwydydd, fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r realiti. Yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru, ar ddiwedd Medi, roedd 28% ar ffyrlo o hyd, oedd yn golygu eu bod yn derbyn 80% o'u cyflog arferol drwy'r Cynllun Cadw Swyddi, roedd 14% wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu hincwm am eu bod yn cael llai o waith neu'n gweithio llai o oriau, ac roedd 5% wedi colli eu swyddi'n barhaol. Ni wyddys ar hyn o bryd faint sydd wedi colli eu swyddi o fewn Ceredigion yn unig.⁶⁵

Serch rhai arwyddion positif o adferiad yn y farchnad swyddi yn sgil cynnydd yn y nifer o swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu, amcangyfrifir bod cyflog blynyddol cyfartalog y swyddi a hysbysebir wedi gostwng 12.4%, gweler yr adran swyddi gwag a recriwtio.⁶⁶

Cyflog misol cyfartalog

Y Cyflog misol cyfartalog ar draws Cymru (pob diwydiant, wedi'i addasu yn dymhorol)
▼ Punnoedd yn fisol (£)



Yr effaith ar incwm a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i gartrefi



Mae incwm cartrefi yn barod yn fwy isel yng Ngheredigion i gymharu ag ar draws Cymru

Mae nifer o aelwydydd yn cael eu heffeithio yn sgil llai o incwm neu gollu incwm oherwydd diweithdra, colli oriau gwaith neu fod ar ffyrlo.

Yng Ngheredigion, bu 7,900 o weithwyr ar ffyrlo hyd yn hyn,⁶⁷ a chafwyd 2,800 o geisiadau hunangyflogaeth (Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig).⁶⁸ Mae'r gyfran gymharol uchel o weithwyr ar ffyrlo yn y sir (31%) yn tanlinellu'r ffaith bod ardaloedd gwledig yn cael eu heffeithio'n anghymesur oherwydd pwysigrwydd diwydiannau fel twristiaeth, lletygarwch, gwasanaethau bwyd a llety, sydd oll wedi'u heffeithio'n arbennig gan y pandemig.

Er enghraifft, gwyddom fod 97% o fusnesau twristiaeth wedi cau ar draws y wlad yn ystod y cyfnod clo.⁶⁹ Mae dros 400,000 o weithwyr yng Nghymru wedi'u gosod ar ffyrlo ers dechrau pandemig y coronafeirws, gan dderbyn 80% o'u cyflog dan y Cynllun Cadw Swyddi.⁷⁰

Ym Medi 2020, adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod 28% o weithwyr yng Nghymru wedi'u gosod ar ffyrlo, 14% wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu hincwm, a 5% wedi colli eu swyddi'n barhaol.⁷¹

Mae enillion blynyddol cyfartalog

eisoes yn is yng Ngheredigion nag ar draws Cymru, ac ar wahân i Bowys, maent hefyd yn is na gweddill rhanbarth Canolbarth a De Ddwyrain Cymru. Mae enillion blynyddol cyfartalog rhai sy'n byw yng Ngheredigion yn £24,126, sef dros £2,000 yn llai na'r £26,267 ar draws Cymru.⁷²

Mae incwm aelwydydd Ceredigion yn gyffredinol (£27,754) ychydig yn is na'r cyfartaledd cyffredinol (£27,962) ond yn sylweddol is nag un y DU gyfan (£31,979). (Mae 'incwm' yn cynnwys pensiynau a buddsoddiadau eraill, yn hytrach na chyflogau'n unig).⁷³


Mae pryder dwys o hyd am yr effaith ariannol ar incwm aelwydydd ar draws Cymru, yn arbennig yn y tymor hirach, gyda'r cynllun ffyrlo'n dod i ben ar ddiwedd Hydref a'r tebygolrwydd ar hyn o bryd o gyfyngiadau lleol.

Er enghraifft, mae 45% yn dal i boeni 'ychydig' neu 'llawer' am eu swydd, hyd yn oed os yw hi'n un sicr, sef yr un lefel a phan oedd y pandemig ar ei anterth. Mae 40% yn dal i boeni 'ychydig' neu 'llawer' am gollu eu swydd neu fethu â dod o hyd i un, sy'n uwch na'r 33% a adroddwyd ym Mai. Mae 40% pellach yn poeni 'ychydig' neu 'llawer' am eu sefyllfa ariannol, sydd eto'n uwch na'r 36% a adroddwyd ar 31ain Mai.⁷⁴

Enillion blynyddol cyfartalog yng Ngheredigion

Enillion blynyddol cyfartalog yn ôl man gwaith a phreswylfa

▼ Punnoedd (£)



Mae'r un tueddiadau i'w gweld ar draws arolygon eraill, sy'n awgrymu bod yr effaith ar incwm aelwydydd yn dwysau wrth i dymor yr hydref ddechrau, ac wrth inni wynebu diwedd y cyfnod ffyrlo ac ail don o Covid-19 ar draws y sir.

Incwm Cartref

Penawdau Allweddol

7,900

o weithwyr ffyrlo yng Ngheredigion sydd yn cyfri am 31% o gyflogwyr yn y sir

2,800

o hawlwyr cynlluniau hunan-gyflogaeth, a gostyngiad o 1,400 ers i'r cyfnod clo dod i ben a masnachu yn medru parhau

£24,126

o enillion blynyddol cyfartalog i breswylwyr Ceredigionon, dros £2,000 yn llai nag ar draws Cymru ar y cyfan

£27,754

oedd y cyflog cyfartalog blynyddol cartrefi i breswylwyr Ceredigion, dros £4,000 yn llai nag ar draws y DU ar y cyfan

Themâu Allweddol

→ Incwm cartrefi yn isel yng Ngheredigion i gymharu ag ar draws Cymru

→ Incwm cartrefi a phroblemau cyflogaeth yn parhau i fod yn bryder i breswylwyr Cymru

Yn gyfan gwbl mae gwerthiannau wedi bod yn gwella ers Mai 2020

Cyfaint Gwerthiannau



Penawdau Allweddol

18.1%

o ostyngiad yn y cyfaint o werthiannau adwerthol yn Ebrill pan oedd y pandemig ar eu gwaethaf

4

mis olynol o dyfiant yn y nifer o werthiannau adwerthol ers Mai i gymharu â lefelau cyn y cyfnod clo

+4%

o gynyddiad yn y gwerthiannau adwerthol yn fis Awst i gymharu â mis Chwefror 2020

46.8%

o werthiannau adwerthol yn fwy na lefelau cyn y pandemig ym mis Chwefror

Themâu Allweddol

- Cynyddiad record mewn gwerthiannau ar lein
- Strydoedd uwch o dan bwysedd
- Cyfanswm y gwerthiannau adwerthol wedi adfer i lefelau cyn y pandemig
- Bydd adfer yn araf os bod diweithdra yn cynyddu

Mae pandemig y coronafeirws yn effeithio ar bob rhan o'n bywydau, o'r ffordd rydym yn gweithio, i bwy rydym yn eu gweld, i'r ffordd rydym yn treulio'n amser ac yn gwario'n harian. Nid yn unig y mae arferion gwario defnyddwyr wedi newid, ond mae'r ffordd mae defnyddwyr yn prynu nwyddau hefyd wedi newid – wrth i'r cyfnod clo arwain at fwy o brynu ar-lein.

Wrth i'r wlad ddechrau ar gyfnod clo ym mis Mawrth, ac wrth i fusnesau dianghenraid gau dros dro, gwelwyd cwmp ar unwaith bron yn y galw am nwyddau a gwasanaethau dianghenraid, ond cynyddodd y gwerthiant ar-lein yn aruthrol.

Yn dilyn cwmp misol sylweddol o 5.2% ym Mawrth 2020, gwelwyd y cwmp mwyaf erioed yn y cyfanswm manwerthu yn Ebrill 2020, sef 18.1%.⁷⁵ Gwelwyd gostyngiad misol yn y lefelau gwerthiant ar draws bob sector, ar wahân i siopa cartref, a welodd y cynnydd mwyaf erioed, gyda gwerthiant siopau bwyd hanfodol ac alcohol yn dal i gyynyddu. Gwelwyd cwmp sydyn o 50.2% yng ngwerthiant dillad yn Ebrill 2020 o'i gymharu â Mawrth 2020, pan oedd eisoes wedi gostwng 34.9% ers y mis blaenorol.⁷⁶

Ers hynny, rydym wedi gweld y lefelau manwerthu'n adfer ar ôl y gostyngiad mawr a welwyd yn ystod y cyfnod clo. Er mis Mai, mae'r lefelau manwerthu wedi codi dros gyfnod o bedwar mis yn olynol, hyd lefelau uwch na chyn y pandemig. Yn Awst roeddent i fyny 4.0% o'u cymharu â Chwefror 2020.⁷⁷

Er gwaetha'r cynnydd hwn yn y lefelau manwerthu cyffredinol, mae'r darlun yn un cymysg o fewn bob

sector am nad yw bob siop wedi gweld yr adferiad hwn. Y sectorau gyda gwerthiant uwch na chyn y pandemig yn Chwefror oedd siopau bwyd, siopau manwerthu eraill, nwyddau i'r cartref, a siopa cartref. Mae'r holl sectorau eraill wedi gweld arwyddion o adferiad ers y cyfnod clo, ond ar raddfa arafach. Nid yw'n syndod mai siopau dillad a gwerthiant tanwydd sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y cyfnod clo. Er bod nifer o orsafoedd tanwydd wedi aros ar agor yn ystod y cyfnod clo, arweiniodd y cyfyngiadau symud a gweithio o gartref at ostyngiad o 24.3% yn y gwerthiant yn 2020.⁷⁸

O fewn y cyfanswm manwerthu yn Awst, roedd y gyfran o wariant ar-lein yn 28.1%, sef ychydig yn is na'r 28.9% a adroddwyd yng Ngorffennaf. Serch rhyw fymryn o ostyngiad, mae manwerthu ar-lein wedi aros yn gryf ac roedd yn parhau i fod 46.8% yn uwch na'r lefel cyn y pandemig yn Chwefror.⁷⁹


Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y gwerthiant ar-lein yn golygu bod y stryd fawr yn parhau i fod dan bwysau, ac felly'r anogaeth ar draws y sir a'r genedl yw i bobl gefnogi busnesau lleol.

O edrych tua'r dyfodol, mi all y twf mewn gwerthiant arafu os bydd y cyfraddau diweithdra'n codi, ac wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben, a fydd yn anorod yn gosod straen ar incwm aelwydydd a sicrwydd swyddi.


Cyfanswm gwerthiannau adwerthol

Gwerthiannau adwerthol yn ystod y cyfnod clo (Indecs 2016 = 100)

▼ Canran



Yr effaith ar fynediad digidol a myfyrwyr



Cysylltedd digidol a sgiliau digidol yn fwy pwysig

Presenoldeb Ar-lein a Gwaharddiad Digidol



Penawdau Allweddol

12%

o gartrefi yng Ngheredigion heb fynediad i'r we

58%

o breswylwyr Ceredigion yn credu bod cyfathrebu dros y we yn hanfodol

66%

o boblogaeth Cymru yn nodi bod ganddynt y 5 sgil digidol sylfaenol

Themâu Allweddol

- Pwysigrwydd mynediad a sgiliau digidol
- Pobl hyn yn llai tebygol o ddefnyddio'r we
- Mentrau heb bresenoldeb ar-lein yn fwy tebygol i ofni cwmpiad
- Datblygiad i isadeiledd digidol Ceredigion

Mae mynediad at y rhyngwrwyd a gwybod sut i'w ddefnyddio yn dod yn fwy a mwy angenrheidiol. Hyd yn oed cyn Covid-19, roedd y galw am gyfleusterau ar-lein yn cynyddu, ac mae'r galw hwn wedi cynyddu ymhellach ers dechrau'r cyfnod clo ym Mawrth 2020.

Y dyddiau hyn, mae mwy o awydd i siopa ar-lein yn hytrach na mynd i siopau, ac mae'r ystadegau'n dangos bod siopa ar-lein wedi cynyddu 46.8% o'i gymharu â'r lefel cyn y pandemig.⁸⁰ O ystyried y twf mewn siopa ar-lein, nid yw'n syndod felly bod busnesau, bach a mawr, yn gorfod addasu a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol. Erbyn hyn mae busnes yn fwy tebygol o oroesi a ffynnu os yw ei wasanaethau ar gael ar-lein. Mae mentrau nad ydynt ar-lein yn fwy tebygol o ofni methu (68% o'i gymharu â 45%) ac mae busnesau oddi ar-lein yn fwy tebygol o fod wedi cau dros dro, o'u cymharu â busnesau ar-lein (37% o'i gymharu ag 16%).⁸¹


Wedi dweud hyn, yng Ngheredigion mae 15% o aelwydydd yn dal i fod heb fynediad i'r rhyngwrwyd, ac mae ansawdd y band eang yn amrywio hefyd o fewn lleoliadau gwahanol ar draws y Sir.⁸² Mae 19% o eiddo preswyl Ceredigion heb fynediad at wasanaethau uwchlaw 30mbit/e.⁸³ Ardaloedd gwledig yng Ngheredigion sydd wedi'u heffeithio fwyaf ar draws Cymru, gyda rhai cartrefi'n derbyn gwasanaethau sylfaenol 10mbit/e yn unig.

Gwyddys fod gan Geredigion boblogaeth oedranus, gyda 25.4% o boblogaeth y Sir yn 65 oed a throsodd. Yng Nghymru, nid yw 10.9% o'r boblogaeth yn defnyddio'r

rhyngwrwyd, ac mae rhai dros 65 oed yn llawer llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwyd (79%) o'u cymharu â rhai 16 i 24 oed (1%). Yn ôl yr adroddiadau, mae pobl hyn a phobl anabl yn cael trafferth meistroli sgiliau digidol sylfaenol.⁸⁴ Mae 66% o boblogaeth Cymru'n meddu ar y pum sgil digidol sylfaenol, mae hyn yn isel o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 79%.⁸⁵

Mae Awdurod Lleol Ceredigion wedi'i gydnabod fel un sydd angen cymorth i dderbyn band eang mwy cyflym, er mwyn cadw i fyny â'r galw cynyddol o fewn y byd digidol. Mae'r Gronfa Uwchraddio Band Eang yn un enghraifft o ymgyrch beilot sy'n darparu cyfleoedd i fusnesau a thrigolion i ddatrys problemau cysylltedd drwy dderbyn grantiau bach.⁸⁶ Gall trigolion hawlio hyd at £1,500 a gall busnesau bach a chanolig hawlio hyd at £3,500 i uwchraddio'r band eang a'r cyflymder lawrlwytho.⁸⁷ Gallai band eang dibynadwy wella bywydau pobl yn sylweddol, yn enwedig o ystyried bod 58% o drigolion Ceredigion wedi nodi bod cyfathrebu dros y rhyngwrwyd yn hanfodol yn ystod Covid-19, a'i fod yn debygol o barhau i fod yn hanfodol yn y dyfodol.⁸⁸

Y rhai sydd ddim yn defnyddio'r we Cyfansoddiad oedran y rhai sydd ddim yn defnyddio'r we



Myfyrwyr yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan yn dychwelyd ar gyfer 2020/21

Prifysgolion a Myfyrwyr



Penawdau Allweddol

13%

o swyddi Ceredigion o fewn y sector addysg

7,845

o fyfyrwyr yn Brifysgol Aberystwyth a 360 yn gampws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

£367

ar gyfartaledd yn cael i'w gwario gan fyfyrwyr yn yr economi lleol, eithrio rhent

4.8%

ydy cyfraniad y sector Addysg Uwch i GVA Cymru

Themâu Allweddol

- Addysg yw'r sector fwyaf yng Ngheredigion
- Niferoedd myfyrwyr yn disgyn
- Myfyrwyr yn fwy tebygol o ohiriedig yn 2020/21 oherwydd y Coronafeirws
- Pryderon am iechyd a lles myfyrwyr

Mae'r sector addysg uwch yn chwarae rhan hanfodol o fewn economi Cymru, gan gyfrannu 4.8% at Werth Ychwanegol Gros Cymru. Yng Ngheredigion, addysg yw'r sector mwyaf, yn cyflogi tua 4,300 o bobl ac yn cyfrif am tua 13.9% o swyddi'r sir.⁸⁹

Yn y flwyddyn academiaidd 2017/18, roedd gan Brifysgol Aberystwyth yn unig dros 8,100 o fyfyrwyr, gan gyfrif am 11.2% o boblogaeth y sir yn ystod y tymor, a thua hanner poblogaeth tref Aberystwyth.⁹⁰ Yn ogystal, mae campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gartref i tua 360 o fyfyrwyr bob blwyddyn.

Mae'r data diweddaraf y flwyddyn academiaidd 2018/19 yn dangos bod y niferoedd a gofrestrodd yn Aberystwyth wedi gostwng i 7,845 o fyfyrwyr.⁹¹ Mae pandemig Covid-19 wedi creu llawer o ansicrwydd ymhlith myfyrwyr a sefydliadau addysg fel ei gilydd, ac mae arolygon wedi dangos bod myfyrwyr yn fwy tebygol o oedi cyn cofrestru oherwydd y pandemig. Er enghraifft, os nad oedd prifysgol o'u dewis yn gweithredu fel arfer, dim ond 72% o fyfyrwyr ddywedodd y byddent yn mynd i brifysgol ym Medi 2020.⁹²

Ar gyfartaledd, mae myfyrwyr yn gwario tua £367 y mis (heb gynnwys rhent) yn yr economi leol,⁹³ ac o ystyried hyn yn gyffredinol, gallai myfyrwyr Aberystwyth a Llanbedr fod yn gwario hyd at £3 miliwn yn economi Ceredigion bob mis, ac felly mae unrhyw ostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn debygol o gael

effaith ar yr ardaloedd cyfagos.

Ychydig iawn o achosion o Covid-19 a gofnodwyd yng Ngheredigion hyd yn hyn - 130 ers mis Ebrill. Croesawyd myfyrwyr yn ôl yn ddiweddar i gampws Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2020/21. Dros yr wythnosau diwethaf, mae tua 40 o brifysgolion ar draws y DU wedi cofnodi achosion o Covid-19, gan gynnwys Aberystwyth.⁹⁴ O ganlyniad gohiriwyd addysgu wyneb yn wyneb dros dro, gyda pheth addysgu o'r fath yn ail-ddechrau'n nes ymlaen.⁹⁵


Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y pryder mwyaf ar aelwydydd sydd ag aelodau'n dychwelyd i brifysgol yr hydref hwn yw lefel yr addysg y byddant yn ei dderbyn (67%) ac yn ail, y perygl y bydd yr aelodau hynny'n dal Covid-19 yn y brifysgol (60%).⁹⁶

Fel pob tref prifysgol, mae rôl myfyrwyr yn yr economi leol yn parhau i fod yn un hanfodol, er bod pryderon am addysg, iechyd a lles y myfyrwyr yn cynyddu wrth i ail don o'r pandemig fwrw'r genedl.

Myfyrwyr Prifysgolion

Cofrestrïadau yn Brifysgol Aberystwyth

▼ Nifer



Yr effaith economaidd ar anghydraddoldeb ac iechyd corfforol



Cymru wladol wedi effeithio yn anghymesur gan Covid-19

Mae'r ymchwil a gynhaliwyd hyd yn hyn i effeithiau Covid-19 yn awgrymu'n gryf bod cefn gwlad Cymru wedi'i bwrw, ac yn dal i gael ei bwrw'n galetach na gweddill y DU.

Er enghraifft, ym mis Mai, cyhoeddodd Sefydliad Bevan ei adroddiad ymchwil "Ble nesaf i economi Cymru?", ac ynddo mae'n pwysleisio bod cefn gwlad Cymru (ynghyd â rhannau o Dde Cymru) wedi gweld y lefelau uchaf o fusnesau'n cau, a bod gan yr ardaloedd hyn economïau cymharol wan cyn pandemig y coronafeirws.⁹⁷

Er enghraifft, rhagamcanir bod 28.5% o fusnesau Ceredigion wedi cau dros dro yn ystod y cyfnod clo, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 25.5%, ac mae'r un duedd i'w gweld ar draws gweddill ardaloedd gwledig gorllewin Cymru.⁹⁸

Gwyddom hefyd mai yng Nghymru y gwelwyd y gyfran uchaf o fusnesau ar draws rhanbarthau'r DU yn gwneud cais am grantiau busnes (25.5%) i'w cynorthwyo drwy'r cyfnod hwn, yn ogystal â'r ail gyfran uchaf o fusnesau'n gwneud cais i'r Cynllun Cadw Swyddi (83.0%), ynghyd â'r drydedd gyfran isaf o fusnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd (96.6%).⁹⁹

Ar ben hynny, mae'r diwydiannau sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y pandemig yn rhai hanfodol i economi

Ceredigion ac economïau tebyg yn rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru, sef llety a gwasanaethau bwyd (sy'n cyfrif am 11.3% o swyddi yn yr economi leol), amaethyddiaeth (4.5% o swyddi), addysg (13.9% o swyddi) a thwristiaeth (12.9%) o swyddi.¹⁰⁰

Mae yna gysylltiad uniongyrchol hefyd rhwng difreintiad a marwolaethau sy'n gysylltiedig â coronafeirws. Roedd gan ardaloedd oedd ymlith y pumed mwyaf difreintiedig gyfradd o 44.6 marwolaeth yn gysylltiedig â coronafeirws (COVID-19) am bob 100,000 o'r boblogaeth, sydd bron ddwywaith yn uwch na'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (23.2 marwolaeth am bob 100,000 o'r boblogaeth).¹⁰¹

Mae ymchwil gan y Resolution Foundation i anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru'n dangos bod y gweithlu gofal cymdeithasol, er yn fawr, yn un ansicr gyda thâl isel, gyda 56% o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru'n ennill llai na'r cyflog byw, a nifer fawr o'r contractau'n rhai dim orau. Maent yn tynnu sylw at y pryder arbennig bod 83% o'r gweithwyr hyn yn fenywaidd, sy'n cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.¹⁰²

Mae Sefydliad Bevan yn dod i'r casgliad y bydd dosbarthiad tecach o fuddiannau economaidd yn bwysicach nag erioed, a dylai'r ymdrechion i wella cydraddoldeb economaidd yng Nghymru roi blaenoriaeth i gefn gwlad Cymru (ynghyd â rhannau o Dde Cymru) sydd wedi'u bwrw galetaf gan y pandemig.¹⁰³

Lleihau Anghydraddoldebau Economaidd



Penawdau Allweddol

28.5%

o fusnesau Ceredigion wedi'i rhagfynegi bod nhw wedi cau dros dro yn ystod y brig yn Ebrill, yn uwch nac ar draws gweddill Cymru (25.5%)

25.5%


o fusnesau Cymru wedi ymgeisio am grantiau busnes, yn uwch nac ar draws rhanbarthau'r DU

Themâu Allweddol

→ Cymru wladol wedi effeithio yn anghymesur gan y pandemig

→ Busnesau Cymru yn fwy dibynnol ar gynlluniau cymorth busnesau

Ceisiadau grantiau Busnes Y cyfranedd o fusnesau sydd wedi ymgeisio am grantiau busnes 7fed i'r 20fed o Fedi



Mae'r cyhoedd dal i bryderu am Covid-19 a'i iechyd corfforol

Iechyd Corfforol Gartref ac yn y Gwaith



Penawdau Allweddol

64%

o oedolion yng Nghymru wedi dweud bod nhw'n teimlon iach ar 13eg Medi, a 6% yn teimlo'n afiach

82.4%

o boblogaeth Cymru yn poeni am yr effeithiau mae Coronafeirws yn cael ar eu bywydau

22%

o oedolion yng Nghymru yn poeni 'llawer' am fynd allan yn gyhoeddus oherwydd Covid-19

56%

o boblogaeth Cymru yn ffafrio cadw busnesau sydd ddim yn hanfodol ar gau nes bod bygythiad Coronafeirws wedi mynd

Themâu Allweddol

→ Pryderon yn parhau am fynd allan yn gyhoeddus oherwydd Coronafeirws

→ Mae'r cyhoedd yn teimlo fel bod bygythiad Covid-19 wedi cynyddu ychydig ers mis Mehefin

→ Pobl yng Nghymru yn teimlo'n llai iachus nag ym mis Mehefin

Mae amryw o astudiaethau'n cydnabod y cyswllt rhwng iechyd cenedl a'i heconomi. Mae Covid-19 wedi cael effaith fawr ar iechyd corfforol, ac nid yw hynny'n syndod o ystyried faint o ansicrwydd sydd yna mewn perthynas â'r feirws.

Yn ystod pandemig Covid-19 cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant. Mae'r data mwyaf diweddar yn dangos bod 22% o'r cyfranogwyr yn dal i boeni 'llawer' am fynd allan yn gyhoeddus, a 40% yn poeni 'ychydig'.¹⁰⁴

Ar 22ain Mehefin llaciwyd y cyfyngiadau yng Nghymru, gan ganiatáu i rai busnesau diangenrhaid ail-agor. Er bod hyn wedi'i groesawu gan lawer o fewn y gymuned fusnes, mae mwyafrif y cyhoedd yng Nghymru, sef 56% yn dweud y byddai'n well ganddynt pe bai busnesau dianghenraid yn aros ar gau nes bod y risg o ledaenu coronafeirws wedi diflannu.

Rydym yn wynebu ail don o'r pandemig Covid-19 ar hyn o bryd, ac mae'r ystadegau'n dangos bod y cyhoedd yng Nghymru'n teimlo bod y bygythiad i'r wlad wedi cynyddu rhywfaint rhwng Mehefin (66%) a Medi (67%). Wedi dweud hynny, mae'r ystadegau hyn yn is o lawer na'r hyn a welwyd yn Ebrill, ar ddechrau'r pandemig (80%).¹⁰⁵ Yn ogystal, ym mis Mai,

datgelodd arolwg ONS bod 82.4% o'r cyfranogwyr o Gymru yn poeni llawer iawn / rhywfaint am yr effaith roedd Covid-19 yn ei gael ar eu bywydau.¹⁰⁶

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwelwyd gostyngiad yn nifer y rhai sy'n teimlo'n iach. Ym Medi 2020 dywedodd 64% o'r cyfranogwyr eu bod yn

teimlo'n 'iach iawn', mae hyn yn ostyngiad bach o 3% o'i gymharu ag ystadegau Mai 2020. Dim ond 6% o'r cyfranogwyr ddywedodd eu bod yn teimlo'n 'afiach iawn' ym Medi 2020 o'i gymharu â 5% ym mis Mai.^{107 a 108}


Roedd yr ystadegau'n dangos bod 31% o'r cyfranogwyr yn meddwl eu bod wedi magu pwysau ers i'r cyfnod clo ddechrau, gydag ond 23% yn dweud eu bod wedi colli pwysau. Datgelodd 30% o'r cyfranogwyr nad oeddent wedi gwneud o leiaf 30 munud o ymarfer dros yr wythnos flaenorol.¹⁰⁹ Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal iechyd corfforol pob oedran a grŵp gwahanol, ac mae'n amlwg bod pa mor iach oedd rhywun cyn y cyfnod clo yn hanfodol i'w gobeithion o wella os cânt eu heintio â'r feirws.¹¹⁰

Un o'r pynciau y bu cryn drafod arno'n ddiweddar yw mynediad i erddi preifat neu fannau gwyrdd lleol ger eich cartref ar gyfer ymarfer a chynnal iechyd corfforol. Mae ymchwil yn dangos bod pobl yng Nghymru'n debycach na pheidio o fod â mynediad at ardd breifat, ond mai nhw, ar y llaw arall, oedd lleiaf tebygol o fod â mynediad at, neu o ymweld â pharc neu fan gwyrdd. Y Borth a Bontgoch yn ngogledd y sir sydd â'r gyfran isaf o eiddo heb ardd, sef 7%, gyda Chei Newydd a Penbryn i'r de â'r gyfran uchaf, sef 12%.¹¹¹

Iechyd Corfforol

Sut wyt ti'n teimlo heddiw? (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

▼ Canran



Yr effaith ar iechyd meddwl a'r symudiad i weithio o gartref



Mae amddiffyn iechyd meddwl yn flaenoriaeth i unigolion a busnesau

Iechyd Meddwl a Lles



Penawadau Allweddol

47%

o breswylwyr Cymru yn dal i boeni am golli rhywun maent yn caru oherwydd Covid-19, i lawr o 64% yn Mai

36%

o breswylwyr Cymru yn credu bod bygythiad y firws yn 'uchel' neu yn 'uchel iawn', i lawr o 44% yn Ebrill

47%

o breswylwyr Cymru yn poeni ychydig neu lawer am eu hiechyd meddwl, i lawr o 58% ar ddechrau Mai

60%

o rieni yn poeni llawer am les eu plentyn, i fyny ychydig o 59% ar ddechrau Mai

Themâu Allweddol

→ Pryderon am iechyd meddwl a lles yn dal i fodoli

→ Pryderon am les ac addysg plant yn cynyddu

Un o effeithiau Covid-19 sydd wedi'i drafod fwyaf yw'r effaith ar iechyd a lles meddyliol. Gall iechyd meddwl gael ei effeithio mewn nifer o ffyrdd gwahanol – colli incwm i'r cartref drwy fod ar ffyrlo neu gael eich diswyddo, y risg corfforol i iechyd dynol/aelodau'r teulu o ganlyniad i ddal y feirws, gorbryder ac unigedd cynyddol yn sgil byw dan gyfyngiadau, a'r perygl y bydd teulu a pherthnasoedd yn chwalo o ganlyniad i'r ffactorau hyn. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith ar weithwyr a defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau yn yr economi leol.

Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'r pryderon a bwysleisiwyd yn ymchwil Academi'r Gwyddorau Meddygol i effaith coronfeirws ar iechyd meddwl, ac maent hefyd wedi'u codi gan grwpiau cymorth lleol yng Ngheredigion.¹¹²

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod wrthi'n monitro iechyd meddyliol a chorfforol y genedl yn ofalus ers i'r pandemig ddechrau. Mae eu harolygon rheolaidd 'Sut ydym ni yng Nghymru?' yn dangos sut mae'r pryderon wedi lleddfu dros y tri mis diwethaf, ond bod yna bryder o hyd am y posibilrwydd o ddal y feirws ac effaith y cyfnod clo dros yr haf.

Ar ganol Medi, roedd bron hanner trigolion Cymru (47%) yn dal i boeni 'llawer' am golli anwyl yn i coronfeirws, i lawr o 64% ym mis Mai, pan oedd y pandemig yn ei anterth. Mae 36% yn dal i gredu bod y bygythiad o du'r feirws yn 'uchel' neu'n 'uchel iawn', i lawr o 44% ganol Ebrill. Hefyd, roedd bron i hanner y trigolion (47%) yn poeni 'ychydig' neu 'llawer' am eu hiechyd meddwl, i lawr o 58% ar ddechrau Mai.

Gall teimladau o unigedd fod yn arbenig o gryf, ac ar ganol Medi dywedodd 10% o drigolion Cymru eu bod yn teimlo'n ynysig 'yn aml' neu 'trwy'r amser', i lawr o 22% ym Mai.¹¹³

Mae'r tueddiadau hyn yn parhau mewn modd tebyg iawn, gydag un eithriad amlwg, sef yr effaith ar blant ac addysg, lle mae un ai'r baich ar rieni o addysgu gartref, anymarferoldeb dysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth, neu anawsterau cymryd lle athrawon proffesiynol wedi cael effaith fawr, gyda 62% o rieni'n poeni 'llawer' am addysg eu plant, o'i gymharu â 35% yn unig ar ddechrau Mai. Hefyd, mae 60% yn poeni 'llawer' am les eu plant, sydd ychydig yn uwch na'r 59% ar ddechrau Mai.¹¹⁴


Canfu ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mai bod oedolion o oedran gweithio oedd yn byw ar ben eu hunain yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig 'yn aml neu trwy'r amser', ynghyd â'r rhai sydd ag iechyd 'gwael' neu 'gwael iawn', rhai mewn llety rhent, neu rai sydd un ai'n sengl, wedi ysgaru neu wahanu, neu'n gyn-bartner neu'n bartner sifil sydd wedi gwahanu.¹¹⁵

Mae'r cynnydd diweddar yn nifer yr achosion yng Ngheredigion ar ddiwedd Medi a dechrau Hydref yn debygol o beri pryder i nifer o aelwydydd, ynghyd â chyflwyno cyfnod atal cenedlaethol byr ar 23ain Hydref.¹¹⁶

Pryderon am Iechyd Meddwl

Preswylwyr Cymru yn poeni 'ychydig' neu 'llawer' am eu hiechyd meddwl a lles

▼ Canran



Mae gweithio o gartref yn boblogaidd ond mae'n codi cwestiynau am iechyd

Gweithio o gartref



Penawdau Allweddol

40%

o weithlu Cymru yn gweithio o gartref

30%

o weithlu Cymru i barhau i weithio o gartref hyd yn oed ar ôl i fygythiad Covid-19 mynd, ydy nod Llywodraeth Cymru

Themâu Allweddol

→ Nifer o arolygon yn dangos bod nifer o'r rhai sydd yn gweithio o gartref eisiau parhau i weithio o gartref

Mae'r posibilrwydd o weithio gartref dros y tymor hirach yn rhan allweddol o'r hyn a elwir yn "normal newydd" ac yn rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Y cyfarwyddyd presennol gan Lywodraeth Cymru yw parhau i weithio gartref lle bo modd i leihau'r perygl o heintiad. Bydd addasu i weithio o gartref yn her sylweddol i weithlu Ceredigion, wrth i weithwyr gydbwysu gofynion gwaith a bywyd teuluol.

Mae tua 40% o weithlu Cymru'n gweithio gartref, sy'n is na chyfartaledd y DU o 46.6%.¹¹⁷

Hyd yn oed heb fygythiad Covid-19, mae gweithio gartref yn dod yn fwy poblogaidd na gweithio mewn swyddfa. Dangosodd un arolwg y byddai'n well gan 50% o'r cyfranogwyr weithio cyfuniad o ddyddiau yn y swyddfa a gartref, unwaith ei bod hi'n ddiogel dychwelyd i'r swyddfa. Dywedodd 23% y byddent yn hoffi parhau i weithio gartref yn llawn amser, a dim ond 25% o'r cyfranogwyr nododd y byddent yn hoffi dychwelyd i weithio yn y swyddfa'n llawn amser.¹¹⁸

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei nod o gael tua 30% o weithlu Cymru'n gweithio o bell, hyd yn oed pan fydd bygythiad Covid-19 wedi dod i ben. Y bwriad yw datblygu modelau ar gyfer gweithleoedd hybrid, i alluogi staff i weithio gartref yn ogystal â mewn canolfan benodedig.¹¹⁹

Mae ymchwil a wnaed i weithio o gartref yn ystod y cyfnod clo wedi arwain at ganlyniadau cymysg. O'r rhai sy'n byw ac yn gweithio gartref gyda phlant, mae 54% yn nodi bod y cydbwysedd bywyd a gwaith yn haws. Mae tua 48% yn cytuno

bod gweithio o gartref yn gwneud hi'n haws canolbwyntio ar waith, gyda 44% yn cael hi'n haws cwblhau gwaith erbyn dyddiadau cau. Wedi dweud hynny, nododd 33% o'r cyfranogwyr ei bod hi'n anoddach gwneud gwaith oedd yn gofyn am ganolbwyntio'r meddwl, wrth weithio o gartref.¹²⁰


Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at fanteision eraill gweithio o gartref, megis lleihau tagfeydd traffig, llygredd a'r defnydd o geir preifat.¹²¹ Serch hynny, mae yna bryderon eraill yn gysylltiedig â gweithio gartref, megis iechyd meddyliol a chorfforol. Dangosodd yr arolwg lles gweithio o gartref nad oedd 50% o'r cyfranogwyr yn hapus gyda'u cydbwysedd bywyd a gwaith presennol, roedd 33% yn teimlo'n ynysig, ac roedd 21% yn poeni am sicrwydd eu swydd. Hefyd, nododd 64% eu bod yn colli cwsig oherwydd pryder, a nododd 48% eu bod yn gweithio oriau hir ac afreolaidd.¹²²

Mae deiet ac ymarfer hefyd wedi'u heffeithio gan y rheoliadau gweithio o gartref. Nododd dros hanner y cyfranogwyr (60%) eu bod yn gwneud llai o ymarfer, a chyfaddefodd 20% eu bod yn yfed mwy o alcohol, gyda 30% yn bwyta deiet llai iachus.¹²³ Mi allai'r holl ffactorau hyn greu mwy o broblemau iechyd a lles yn y tymor hir. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cyflogwyr i gadw gweithwyr unigol yn iach a diogel, ac i geisio lleihau effeithiau negyddol gweithio o gartref.¹²⁴

Gweithio o gartref

Cyfrannedd y gweithlu sydd yn gweithio o gartref

▼ Nifer



Y “normal newydd” a hyder busnesau



Mae gweithio o gartref yn rhan gyfannol o nod tymor hir Llywodraeth Cymru

Wrth inni ddechrau ar seithfed mis y pandemig, mae'r goblygiadau o ran y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol yn rhai hynod o arwyddocaol.

Ar wahân i'r 40% o weithlu Cymru sy'n gweithio gartref o ganlyniad i'r pandemig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym Medi 2020 mai ei huchelgais hirdymor yw gweld tua 30% o weithwyr Cymru'n gweithio o gartref neu'n agos at gartref, gan gynnwys ar ôl i fygythiad Covid-19 leihau.

Mae yna oblygiadau pellgyrhaeddol i'r bwriad hwn i symud i ffordd o fannau gwaith traddodiadol - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod am roi mwy o hyblygrwydd i weithwyr ar draws Cymru i weithio o bell, ac mae o'r farn bod gan hyn y potensial i hybu adferiad a gweithgaredd economaidd o fewn cymunedau. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dysgu gwersi ar faterion megis cymorth iechyd meddwl, trefniadau gofal plant, a chynllunio tai mewn ffordd fwy arloesol.¹²⁵

Mae'r mesurau pellter cymdeithasol y mae'r cyhoedd wedi dod yn gyfarwydd â nhw yn parhau i fod yn eu lle, ac maent yn debygol o fod felly trwy gydol y gaeaf, yn arbennig wrth i ail don o'r feirws fwrw'r genedl. Mae'r cyfyngiadau hyn yn parhau i effeithio ar y ffordd mae pobl yn siopa a'r ffordd mae busnesau'n gweithredu. Mae pob siop yn dilyn yr un mesurau glendid a phellter cymdeithasol, gan gynnwys cadw pellter o 2 fetr, systemau unffordd, y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE), yn ogystal â sgriniau plastig ger y tiliau i sicrhau nad oes unrhyw gyswllt corfforol rhwng staff a siopwyr.

Mae mesurau eraill gweladwy'n cynnwys mynedfa ac allanfa ar wahân, annog siopwyr i beidio â thalu gydag arian parod, darparu manau glanhau yn y siop, ac annog gwell arferion glanhau a glendid.

Ar gyfer gweithwyr yn y sector gwasanaethau, manwerthu neu

weithgynhyrchu, yr arfer presennol yw lleihau cyswllt â staff eraill drwy weithio'n agos â nifer fach o gydweithwyr yn unig. Un o'r opsiynau a drafodir fwyaf ar gyfer diogelu staff yn y gwaith yw eu bod yn gweithio shifftiau a chael egwyl am yn ail, i leihau cyswllt gydag eraill yn yr adeilad. Bydd nifer o weithwyr a all weithio gartref yn parhau i wneud hynny am y tro.

Yn ogystal ag amddiffyn y staff hynny sydd ar y safle, bydd busnesau am fonitro iechyd a lles meddyliol y staff sydd gartref, drwy gysylltu â nhw'n fwy aml am sgwrs a thrwy sicrhau bod ganddynt fynediad hwylus at gymorth gan Adnoddau Dynol. Mae hefyd yn eithaf tebygol y bydd busnesau dan bwysau cynyddol o du'r llywodraeth neu gyrff masnachu i wneud hyn, os nad ydynt eisoes yn gwneud.

Un o effeithiau mwyaf gweladwy'r normal newydd fydd y drefn mewn bwyta, caffis a thafarndai, a lleoliadau eraill lle mae pobl yn ymgynull mewn grwpiau mwy o faint, a lle mae profiad y busnes yn ddibynnol ar ryngweithio cymdeithasol. Un o'r ymatebion mwyaf ymarferol fydd ail-gynllunio ystafelloedd bwyta, ceginau a gerddi cwrw i sicrhau bod modd cadw at y rheol pellter cymdeithasol o 2 fetr. Mae nifer fawr o fusnesau arlwygo wedi arallgyfeirio i gynnig gwasanaeth cludfwyd os nad oeddent eisoes yn cynnig y gwasanaeth hwnnw, ac ymddengys y bydd hyn yn dod yn fwy a mwy poblogaidd wrth i'r galw am gael bwyd wedi'i ddsbarthu i'r cartref gynyddu.

Wrth gwrs, un o'r meysydd sy'n cael ei effeithio fwyaf gan y rheolau pellter cymdeithasol yw trafndiaeth gyhoeddus, sef yn aml yr unig ddull o deithio i drigolion ardaloedd gwledig. Mae'n orfodol gwisgo mwgwd wyneb ar drafndiaeth gyhoeddus, ac mae pobl yn cael eu hannog fwyfwy i ystyried dulliau eraill o deithio, megis teithio llesol.

Y “Normal Newydd”



Penawdau Allweddol

30%

o weithlu Cymru i barhau i weithio o gartref hyd yn oed ar ôl i fygythiad Covid-19 mynd, ydy nod Llywodraeth Cymru

Themâu Allweddol

- Bydd pellter cymdeithasol yn aros trwy gydol y Gaeaf ac yn y dyfodol
- Mwy o gyfrifoldeb i fusnesau i sicrhau bod cwsmeriaid a staff yn cadw'n ddiogel
- Mwy o gyfrifoldeb i gyflogwyr am iechyd meddwl a lles staff

Mae hyder Busnesau yng Nghymru wedi gwella ychydig ers Ebrill

Hyder Busnesau



Penawdau Allweddol

29%pts

o gynyddiad mewn Hyder Busnesau yng Nghymru ers Gorffennaf ac yn cyrraedd -3% erbyn diwedd Medi

2.5%

o fusnesau yng Nghymru gyda llif arian bydd yn para nhw llai nag 1 mis, a 20.8% efo llif arian bydd yn para 1 i 3 mis

26.1%

o fusnesau yng Nghymru wedi nodi gostyngiad 20% mewn trosiant a 31.6% wedi nodi bod trosiant heb eu heffeithio

Themâu Allweddol

- Hyder busnesau yn cynyddu
- Hyder busnesau Cymru wedi nodi fel un o'r rhai uchaf yn y DU

Nid yw'n syndod efallai bod hyder busnesau yng Nghymru yn is nag y bu erioed yn Ebrill, pan oedd y pandemig yn ei anterth, y wlad gyfan dan gyfyngiadau, sectorau cyfan ar gau, a rhybuddion am y dirwasgiad gwaethaf erioed ar gofnod.

Mae Baromedr Busnes Grŵp Bancio Lloyds yn dangos bod hyder cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol yn Ebrill pan oedd y pandemig yn ei anterth, i -52%, sef y lefel isaf ar draws pob un o ddeuddeg rhanbarth y DU, gan adlewyrchu efallai ehangder a natur yr heriau penodol roedd yn eu hwynebu o ran cynorthwyo busnesau.¹²⁶

Er bod busnesau yng Nghymru yn dweud bod yr effaith negyddol ar y galw wedi parhau tan fis Medi, gwelwyd cynnydd sylweddol a chyson yn hyder busnesau'n gyffredinol. Er enghraifft, gwelwyd adferiad graddol yn y lefelau hyder rhwng Mai a Gorffennaf, cyn iddynt wella'n sylweddol yn Awst.

Yn wahanol i hyder cyhoeddus, sydd erbyn hyn i'w weld yn gostwng ym Medi wrth i ail don o'r feirws fwrw'r genedl, mae hyder busnes i'w weld yn fwy cydnerth hyd yn hyn, gan gynyddu ymhellach i gyrraedd -3% erbyn diwedd Medi.¹²⁷

Ar hyn o bryd, mae lefel hyder busnesau yng Nghymru ymhlith yr uchaf yn y DU, ochr yn ochr â Llundain a

Dwyrain Canolbarth Lloegr, ac mae wedi gwella'n ddramatig ers Gorffennaf – gan godi 29 o bwyntiau canran.¹²⁸

Mae'r optimistiaeth yma'n dilyn chwe mis o amharu ar economi Cymru, ac mae'n dod ar adeg pan mae'r genedl yn wynebu cyfyngiadau lleol i atal ail don o'r feirws. Mi allai hyn awgrymu bod rhai busnesau'n teimlo eu bod yn fwy parod i ddelio â heriau parhaus y pandemig, megis rhai o fewn y diwydiannau bwyd a thwristiaeth, a gafodd dymor haf byr ond prysur mewn trefi glan môr ar hyd yr arfordir.


Mae dadansoddiad o lif arian busnesau Cymru'n dangos y bydd llif arian 2.5% o fusnesau'n para llai nag un mis, a bydd llif arian ychydig dros un rhan o bump (20.8%) yn para rhwng un mis a thri mis.¹²⁹

Nid yw'n glir a fydd y gwelliannau'n parhau ar yr un trywydd unwaith bod y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (ffyrlo) yn dod i ben ar ddiwedd Hydref, a bydd llawer yn debygol o ddibynnu ar effaith yr ail don ar draws y wlad, a ph'un ai fydd yna gyfnod clo cenedlaethol.

Hyder Busnesau yn gyffredinol

Brometer Busnes Grŵp Bancio Lloyds - hyder busnesau yn gyffredinol yng Nghymru

▼ Canran



Yr effaith ar hyder y cyhoedd a brwydro caledi



Mae hyder y cyhoedd wedi lleihau ers Medi

Hyder y Cyhoedd



Penawdau Allweddol

46%

o oedolion yng Nghymru yn poeni am y bygythiad i'w swyddi neu fusnes ar 25ain Medi, ar eu uchaf ers 22ain o Fai

59%

o oedolion yng Nghymru yn poeni am yr effaith ariannol arny'n nhw neu eu teulu, ar eu uchaf ers 31ain Gorffennaf

31%

o oedolion yng Nghymru yn pryderu llawer neu lawer iawn am eu gallu i dalu biliau un mis o nawr, y lefel uchaf ers i'r pandemig ddechrau

Themâu Allweddol

→ Hyder y cyhoedd yn gostwng

→ Pryderon am yr effeithiau ariannol yn cynyddu

Bydd hyder y cyhoedd hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol yn ystod y cyfnod adfer, gan amrywio o hyder trigolion i fynd i siopa neu ddefnyddio gwasanaethau lleol, i hyder busnesau i ail-agor a chymryd risgiau busnes drwy ddatblygu neu ymestyn eu mentrau.

Mae'r tueddiadau'n dangos bod pryderon cyffredinol am Covid-19 wedi lliniaru dros yr haf wrth i'r cyfyngiadau lacio ac wrth i wyliau'r haf nesáu. Fodd bynnag, roedd y gwelliant yn un byrhoedlog, oherwydd ers mis Medi mae hyder y cyhoedd wedi dirywio trwyddi draw, ac mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn parhau i fod yn bryderus iawn, o safbwynt economaidd ac o bersbectif llesiant.

